

# Addysgu Cwricwlwm i Gymru

Medi 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cynnwys Tudalen


**Crynodeb gweithredol ..... 1**

Trosolwg o'r Crynodeb Gweithredol ..... 4

**Cyflwyniad ..... 5**

**Cefndir ..... 5**

Dyfodol Llwyddiannus a Chwricwlwm i Gymru ..... 5

Estyn ..... 6

OECD ..... 8

Strwythur yr adroddiad hwn ..... 9

**Argymhellion ..... 10**

**Rhoi Gweledigaeth ar Waith ..... 11**

Datblygu ymagweddau ysgol gyfan tuag at addysgeg ..... 11

Cynllunio ar gyfer Dysgu ..... 13

Arfer yn yr ystafell ddosbarth ..... 18

**Dysgu proffesiynol ..... 24**

Gwella ansawdd addysgu ..... 24

Cydweithio ..... 30

**Hunanwerthuso ..... 34**

**Dulliau a sail y dystiolaeth ..... 41**

**Geirfa ..... 42**

Niferoedd – symiau a chyfrannau ..... 43

**Cyfeiriadau ..... 44**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad thematig hwn yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae ysgolion yn datblygu ac yn ymwreiddio dulliau addysgu yng Nghwricwlwm i Gymru. Gan fanteisio ar dystiolaeth arolygu, ymweliadau â lleoliadau ysgol (14 o ysgolion cynradd, 10 o ysgolion uwchradd ac un ysgol pob oed) ac adborth gan randdeiliaid, mae'n nodi nodweddion allweddol arfer lwyddiannus a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr ystod oedran sy'n gweithio o fewn Cwricwlwm i Gymru ar hyn o bryd yn unig, sef hyd at Flwyddyn 9 mewn ysgolion uwchradd ar adeg yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rôl ganolog addysgu o ran gwireddu nodau Cwricwlwm i Gymru ac o ran sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi addysgeg wrth wraidd gwelliant addysgol, gan alw ar ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol i gynnal ffocws cryf ar addysgu o ansawdd uchel.

1. Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae arweinwyr wedi datblygu a chyfleu **gweledigaeth glir, ysgol gyfan ar gyfer addysgu**, sy'n cyd-fynd yn agos â dibenion eu cwricwlwm. Mae'r ysgolion hyn wedi sefydlu fframweithiau cytûn ar gyfer addysgeg a, lle caiff y rhain eu rhoi ar waith yn dda, mae staff yn aml yn dangos dealltwriaeth gyson o sut beth yw addysgu effeithiol. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn hyderus, gan eu haddasu'n fedrus ar draws pynciau a chyfnodau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion wedi datblygu nac ymwreiddio disgwyliadau clir ar gyfer ansawdd addysgu, hyd yn hyn. Yn yr achosion hyn, mae arfer yn yr ystafell ddosbarth yn rhy amrywiol o hyd, gan nad oes gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o sut beth yw addysgu effeithiol na dealltwriaeth ddigon da o'i effaith ar ddysgu disgyblion.

2. Mae addysgu cryf wedi'i ategu gan **gynllunio cwricwlwm yn bwrpasol**. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau bod dysgu wedi'i roi mewn trefn yn feddylgar er mwyn sicrhau dilyniant mewn gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth. Maent yn ailedrych ar gysyniadau allweddol ac yn dylunio tasgau sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso dysgu mewn cyd-destunau pwrpasol a difyr. Mae'r ysgolion hyn yn sicrhau y caiff cynlluniau tymor canolig eu datblygu ar y cyd, ar draws grwpiau blwyddyn neu adrannau, gyda digon o strwythur i arwain dysgu a digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion disgyblion. Lle mae'r cynllunio'n llai effeithiol, mae disgyblion yn profi dysgu di-drefn neu nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu ac atgyfnerthu medrau dros gyfnod ac ar draws y cwricwlwm.

3. Mewn llawer o ysgolion, mae addysgu o ansawdd uchel wedi'i nodweddu gan fwriadau clir ar gyfer dysgu, arferion sefydledig a ffocws cryf ar asesu ffurfiannol. Mae athrawon effeithiol yn esbonio bwriadau dysgu'n glir, yn defnyddio holi'n bwrpasol ac yn addasu'r addysgu er mwyn ymateb i gynnydd a chamsyniadau disgyblion. Mae'r ysgolion cryfaf yn mabwysiadu **strategaethau adborth ffurfiannol** sy'n annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu a chymryd camau nesaf ystyrlon. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu ac yn dangos annibyniaeth gynyddol. Mae hyn yn helpu i greu diwylliant lle mae staff a disgyblion yn glir ynghylch sut olwg sydd ar lwyddiant a sut i wella.

4. Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, yn enwedig yn y sector cynradd, yn defnyddio cyd-destunau **dysgu dilys a pherthnasol** a'r gymuned leol i ddyfnhau ymgysylltiad a sicrhau bod dysgu'n fwy ystyrlon. Mae'r dulliau hyn yn cynorthwyo disgyblion i weld perthnasedd eu dysgu, hybu meddwl beirniadol a chryfhau eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae addysgu'n meithrin chwilfrydedd am Gymru a'r byd ehangach, gan alluogi disgyblion i greu cysylltiad ar draws meysydd o'u dysgu mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygiad disgyblion tuag at y pedwar diben.

5. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, mae staff yn asesu cynnydd disgyblion yn uniongyrchol yn erbyn y pedwar diben, yn hytrach na chanolbwyntio ar y wybodaeth a'r medrau y mae angen i ddisgyblion eu datblygu dros gyfnod. Mae hyn yn arwain at ddull asesu arwynebol a defnydd amhriodol o'r pedwar diben mewn gwersi unigol. O ganlyniad, caiff amser addysgu gwerthfawr ei dreulio ar weithgareddau nad ydynt yn cyfrannu'n ystyrlon at ddysgu disgyblion.

6. Lle mae **dysgu proffesiynol o ansawdd uchel** yn cael yr effaith fwyaf, mae'n gynaledig, yn gydweithredol ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella addysgu. Yn yr ysgolion gorau, mae staff yn cydweithio â'i gilydd i archwilio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, myfyrio ar addysgeg a mireinio dulliau yng ngoleuni profiad yn yr ystafell ddosbarth. Mae arweinwyr yn creu amser wedi'i ddiogelu ar gyfer dysgu proffesiynol ac yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â nodau ysgol gyfan ac anghenion datblygu unigol. Caiff anogaeth gan gymheiriaid, grwpiau ymholi a chymorth strwythuredig ar gyfer addysgeg sy'n benodol i bwnc neu gyfnod eu defnyddio'n effeithiol i feithrin gallu a rhannu cyfrifoldeb dros welliant.

7. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau amser a chyllidebol yn aml yn cyfyngu ar ddarpariaeth ac effaith dysgu proffesiynol mewn rhai ysgolion. Yn yr achosion hyn, dywed staff bod diffyg cyfleoedd i ganolbwyntio ar addysgeg a bod cydymffurfiaeth neu gynnwys statudol yn aml yn cael lle blaenllaw mewn hyfforddiant. Mae hyn yn achosi heriau penodol i staff a fyddai'n elwa ar ddysgu proffesiynol parhaus sy'n benodol i gyfnod neu bwnc, nad yw ar bob amser ar gael yn gyson yn rhan o'u datblygiad proffesiynol rheolaidd.

8. Ar draws y system, mae ysgolion yn cydnabod yn fwyfwy werth cydweithio o ansawdd uchel rhwng cymheiriaid i ysgogi gwelliant. Mae ysgolion effeithiol yn ymgorffori cymorth, anogaeth ac ymholi rhwng cymheiriaid yn rhan o'u diwylliant proffesiynol. Mae staff yn defnyddio'r dulliau hyn i archwilio arfer, treialu strategaethau a myfyrio ar effaith. Mae'r dulliau hyn nid yn unig yn cefnogi twf proffesiynol, maent hefyd yn hybu **diwylliant proffesiynol cydweithredol** a chydgyfrifoldeb dros wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

9. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol yr ymwelom â nhw, mae arweinwyr yn integreiddio blaenoriaethau addysgu a dysgu yn eu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn casglu ystod eang o dystiolaeth yn rheolaidd i werthuso ansawdd yr addysgu a'i **effaith ar gynnydd disgyblion**. Mae deialog broffesiynol wedi'i ymwreiddio ar draws yr ysgol a chaiff sgyrsiau myfyriol eu defnyddio'n **barhaus** i nodi cryfderau a mireinio arfer. Yn bwysig, mae hunanwerthuso yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio nid yn unig ar roi strategaethau ar waith, ond hefyd ar eu heffaith ar ddysgu.

10. Lle mae hunanwerthuso'n llai effeithiol, mae'n dueddol o ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth arwynebol ag ystod benodol o dechnegau addysgegol, yn hytrach na gwerthuso'r dulliau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion. Yn yr achosion hyn, caiff strategaethau addysgu eu defnyddio'n anghyson ac, yn aml, heb ystyriaeth fanwl, ac mae adborth ar arfer yn yr ystafell ddosbarth yn dueddol o atgyfnerthu dull cul, fformiwläig o addysgu.

## Trosolwg o'r Crynodeb Gweithredol

### Gweledigaeth Glir ar gyfer Addysgu

Mae ysgolion â'r ansawdd a ddysgu mwyaf cyson wedi datblygu gweledigaeth ysgol gyfan ar gyfer addysgeg sy'n cyd-fynd yn glir â nodau eu cwricwlwm. Mae'r holl staff yn deall y weledigaeth hon ac mae wedi'i hymwreiddio mewn deialog broffesiynol, cynllunio a gwerthuso.

### Cynllunio Cwricwlwm yn Bwrpasol

Mae addysgu effeithiol wedi'i ategu gan gynllunio tymor canolig a thymor hir sy'n rhoi dysgu mewn trefn yn feddylgar dros gyfnod. Mae athrawon yn ailedrych ar wybodaeth a medrau allweddol yn rheolaidd ac yn sicrhau bod eu cynllunio'n cyd-fynd â fframweithiau dilyniant cenedlaethol, gan sicrhau y caiff dealltwriaeth ei datblygu'n gydlynol.

### Cyd-destunau Dysgu Dilys a Pherthnasol

Mae athrawon yn dylunio tasgau sy'n cysylltu â phrofiadau go iawn, cymunedau a diddordebau disgyblion. Caiff dysgu ei wneud yn ystyrlon trwy gyd-destunau dilys, gan helpu disgyblion i ddatblygu meddwl beirniadol, cymhwyso a dyfnhau eu dysgu a deall ei berthnasedd i'w bywydau a'u dyfodol.

### Asesu Ffurfiannol ac Adborth

Mae athrawon mewn ysgolion effeithiol yn defnyddio asesu ffurfiannol yn rheolaidd i nodi camsyniadau ac addasu addysgu mewn amser real. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn benodol, yn amserol a gellir ei roi ar waith, sy'n cefnogi disgyblion i fyfyrio, mireinio a gwella eu dysgu.

### Dysgu Proffesiynol o Ansawdd Uchel

Lle mae addysgu ar ei gryfaf, mae dysgu proffesiynol yn gynaledig, yn gydweithredol ac yn canolbwyntio ar wella addysgeg. Mae hefyd yn dwysáu dealltwriaeth athrawon o sut i gynnwys tystiolaeth ymchwil yn eu profiad proffesiynol eu hunain, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n amodol ar y cyd-destun yn yr ystafell ddosbarth.

### Diwylliant Proffesiynol Cydweithredol

Nod amgen arfer effeithiol yw diwylliant o ymddiriedaeth broffesiynol, didwylledd a deialog barhaus sy'n canolbwyntio ar addysgu. Mae staff yn arsylwi gwersi ei gilydd yn rheolaidd, yn rhannu strategaethau ac yn cydweithio i wella eu harfer. Mae grwpiau ymholi a rhwydweithiau yn yr ysgol yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i dreialu, mireinio ac ymgorffori gwelliannau

### Hunanwerthuso Myfyriol

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae hunanwerthuso'n canolbwyntio ar effaith addysgu ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i werthuso pa mor dda y mae addysgu'n gweithio, gan arwain at addasiadau gwybodus a mireinio arfer yn barhaus.

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2023-2024. Dyma'r ail adolygiad thematig ar addysgu ac mae'n adeiladu ar ein canfyddiadau o'r adolygiad thematig cyntaf, Gwella Addysgu (Estyn, 2018).

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda yr oedd ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed a gymerodd ran yn yr adolygiad yn rhoi dulliau addysgu effeithiol ar waith yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru a'u hymwreiddio. Wrth i'r cwricwlwm barhau i esblygu, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at arfer orau, heriau a meysydd i'w datblygu ymhellach er mwyn sicrhau addysgu o ansawdd uchel sy'n cefnogi dysgu effeithiol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys ymweliadau â darparwyr, trafodaethau ag ystod eang o randdeiliaid, arolwg ar-lein ac archwiliad o ddogfennau ac arolygiadau parhaus, y mae pob un ohonynt wedi'u manylu yn yr atodiad.

Cynulleidfa fwriadedig yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i rieni a phartneriaid perthnasol. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

## Cefndir

### Dyfodol Llwyddiannus a Chwricwlwm i Gymru

Amlinellodd adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) gynigion ar gyfer cwricwlwm a dulliau addysgu newydd yng Nghymru, trwy adeiladu ar ei gryfderau presennol a thynnu sylw at ffyrdd ymlaen. Wrth roi ystod o argymhellion ynghylch strwythur a dibenion y cwricwlwm, nododd yn glir hefyd y gofyniad mai addysgu effeithiol oedd y prif sbardun i'w lwyddiant yn y dyfodol.

> *"Bydd y gallu i gyflawni cynigion yr Adolygiad ar ddibenion a strwythur y cwricwlwm yn dibynnu yn y pen draw ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae swm cynyddol o dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod addysgu da yn hanfodol bwysig i sicrhau dysgu effeithiol. Felly, er mwyn sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad hwn yn*

> *cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd ar ddysgu a chyflawniad, bydd yn hanfodol ystyried yr holl oblygiadau o ran addysgeg." (Donaldson, 2015, t. 63)*

Tynnodd yr adroddiad sylw at y perygl 'o ddehongli newidiadau yn strwythurau'r cwricwlwm fel petaent yn ffafrio dulliau addysgegol penodol' (t. 63). Mae Donaldson yn ein hatgoffa y bydd athro rhagorol yn cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol â'i farn broffesiynol er mwyn sicrhau bod ei addysgu yn effeithiol ar gyfer anghenion y disgyblion o'i flaen. O ganlyniad, amlygodd yr adroddiad 12 egwyddor addysgegol (t. 63-70) y dylai athrawon eu cymhwyso i gynorthwyo i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru a symud disgyblion tuag at y pedwar diben. Nododd yr adroddiad y byddai angen 'dealltwriaeth gadarn' o'r addysgegau sy'n cefnogi disgyblion orau i symud tuag at nodau'r cwricwlwm, yn enwedig y 'pam' a 'sut' yn ymwneud ag addysgu, yn hytrach na'r 'beth' yn unig (t. 71).

Yn dilyn yr argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhagor o arweiniad i gynorthwyo ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Amlinellodd 'Y Daith i 2022' (Llywodraeth Cymru, 2020) ddisgwyliadau i ysgolion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylunio cwricwlwm ac addysgeg, gan adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellwyd yn 2015. Mae hyn wedi'i gefnogi'n ddiweddarach gan 'Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith' (Llywodraeth Cymru 2022).

Gan fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar amseriad y cyflwyno hwn, cyhoeddwyd arweiniad ychwanegol i gefnogi ymarferwyr ymhellach i ddeall rôl addysgeg wrth ddylunio eu cwricwla. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau allweddol i leoliadau ac ysgolion eu hystyried:

1. Sut byddwn yn creu diwylliant sy'n annog ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth ddofn o **addysgeg a'r sgil i ddewis y dull gweithredu addysgegol mwyaf priodol?**
2. Sut byddwn yn sicrhau bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei datblygu a'i hymestyn?
3. Sut bydd ein gweledigaeth ar gyfer dysgu yn adlewyrchu'r deuddeg egwyddor addysgeg?
4. Pa amgylchedd dysgu y mae angen i ni ei greu i gefnogi ein gweledigaeth ddysgu yn llawn? (Llywodraeth Cymru 2023, *Cynllunio eich Cwricwlwm)*

## Estyn

Mae Estyn wedi cynnal sawl adolygiad thematig yn ymwneud ag addysgu a rhoi'r cwricwlwm ar waith. Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu'r ffactorau sy'n cyfrannu at addysgu effeithiol, rôl dysgu proffesiynol a sut caiff ysgolion eu cefnogi i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel.

Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad thematig ar Gwella Addysgu yn 2018, tair blynedd ar ôl cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus. Nododd fod gan ysgolion llwyddiannus bolisi clir i helpu

athrawon i ddeall dulliau addysgu effeithiol a'u bod yn defnyddio tystiolaeth ymchwil i lywio eu harfer. Amlygodd hefyd sut roedd athrawon effeithiol yn chwilfrydig yn broffesiynol ac 'yn meddwl yn feirniadol am addysgeg, yn darllen yn eang am addysgu a dysgu, ac yn trafod eu gwaith gydag athrawon eraill' (Estyn, 2018, t. 5).

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Estyn ei adroddiad thematig o'r enw 'Cwricwlwm i Gymru – sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?'. Roedd yn cynnwys cyfeiriad at y cymorth sydd ar gael i wella ansawdd addysgu fel y prif alluogydd i ddiwygio'r cwricwlwm. Roedd yn nodi, er ei fod yn amrywio, bod llawer o ysgolion wedi gweld y cymorth hwn yn ddefnyddiol gan y bu 'o gymorth iddynt ddatblygu dealltwriaeth fwy cyson o addysgu effeithiol a gwella cydweithio rhwng athrawon ac ar draws ysgolion' (Estyn 2022a, t. 23). Amlygodd hefyd fod ysgolion yn llai effeithiol pan fyddant 'yn dylunio a datblygu eu cwricwlwm o bryd i'w gilydd heb feddwl yn ddigon gofalus am sut byddant yn gwella ansawdd yr addysgu' (Estyn 2022a, t.14).

Yn ddiweddarach yn 2022, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig yn edrych ar 'Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu' (Estyn, 2022b). Atgfynerthodd hyn y cysylltiadau pwysig rhwng asesu ac addysgu effeithiol ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o ddulliau addysgu a oedd yn symud dysgu ymlaen yn effeithiol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar athrawon i addasu a mireinio eu harfer i gefnogi disgyblion orau. Nododd, yn yr ysgolion gorau, fod arweinwyr yn 'annog staff i fyfyrio'n rheolaidd ar eu haddysgu o ddydd i ddydd, ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymateb i anghenion disgyblion' (Estyn 2022b, t.1).

Ym mis Medi 2024, ystyriodd Estyn pa mor dda yr oedd ysgolion yn cydweithio â'i gilydd i ddatblygu eu cwricwla a dulliau addysgu i gefnogi disgyblion wrth iddynt symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd (Estyn 2024a, *Pontio a chynnydd disgyblion*). Canfu mai dim ond lleiafrif o ysgolion oedd yn sicrhau bod athrawon ar draws y cyfnodau hyn yn cydweithio â'i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant. Ar ben hynny, anaml roedd yr ysgolion hyn yn rhannu a gwella eu hymagweddau at addysgu effeithiol ar yr adeg bontio hollbwysig hon.

'Mewn ychydig o achosion yn unig yr oedd clystyrau o ysgolion wedi rhannu ymagweddau at addysgu neu wedi ystyried sut gallent sicrhau bod strategaethau addysgu yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd effeithiol a pharhaus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.' *(Estyn, 2024a)*

'Mewn gormod o achosion, nid yw ansawdd addysgu ac asesu yn ddigon uchel. Er enghraifft, mewn ychydig llai na hanner yr ysgolion a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), mae diffygion mewn addysgu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.' *(PAEF, Adroddiad blynyddol, 2025)*

Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Estyn ei adroddiad blynyddol, gan grynhoi dadansoddiad o dros 400 o arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 2023-2024. Nododd yr adroddiad, lle'r oedd gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn fwyaf effeithiol, 'mae arweinwyr wedi cadw ffocws diwyro ar wella ansawdd yr addysgu fel elfen sylfaenol i helpu athrawon i ddeall sut i ddatblygu a chyflwyno eu cwricwlwm yn effeithiol.' (Estyn, 2025). Tynnodd sylw hefyd at nifer o nodweddion allweddol yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, gan gynnwys sefydlu diwylliant o 'ddisgwyliadau uchel lle mae'r holl staff yn mwynhau trafod addysgu, lle caiff datblygiad proffesiynol ei gynllunio'n strategol a chaiff ymchwil ei defnyddio'n synhwyrol i lywio'r penderfyniadau a'r strategaeth ar gyfer eu hysgol'. Fodd bynnag, nododd, mewn lleiafrif o ysgolion, nad yw'r addysgu'n ddigon effeithiol a'i fod yn aml yn argymhelliad ar gyfer gwella. Yn ogystal, 'nid oedd cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, yn enwedig i wella dealltwriaeth athrawon o addysgu effeithiol, wedi'u datblygu'n ddigonol.' (Estyn, 2025).

### OECD

Yn 2020, cyhoeddodd OECD adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu gweithrediad Cwricwlwm i Gymru newydd, gwerthuso parodrwydd Cymru i'w gyflwyno a darparu argymhellion ar gyfer y camau nesaf. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw bod ymarferwyr yng Nghymru yn sicrhau eu bod yn wybodus am 'ymchwil ac arloesi parhaus mewn arferion addysgeg' ac yn nodi 'actifadu gwybyddol' fel enghraifft o addysgeg uchel ei dylanwad sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion (OECD, 2020, t. 44).

Mae **actifadu gwybyddol** ym myd addysg yn cyfeirio at strategaethau addysgu sy'n herio myfyrwyr i feddwl yn ddwfn, ymresymu a phrosesu gwybodaeth yn weithredol. Mae'n cynnwys tasgau sy'n gofyn i fyfyrwyr ddadansoddi, gwerthuso a chymhwyso gwybodaeth yng nghyd-destun datrys problemau yn hytrach na chofio ffeithiau yn unig.

*"Research suggests that cognitive activation enhances learning outcomes for example in mathematics achievement."(NFER 2015, Cognitive Activation in Maths)*

Ar ben hynny, amlygodd yr adroddiad bwysigrwydd cydweithio proffesiynol o ran gwella hunaneffeithiolrwydd a boddhad swyddi athrawon. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod yr heriau logistaidd y mae ysgolion yn eu hwynebu, yn enwedig yr amser sydd ei angen i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol. Mae OECD yn pwysleisio *'the way this professional learning approach is implemented will be key to the success of the Curriculum across all schools in Wales.' (t. 46).*

Nododd cyhoeddiad dilynol fod gwerthusiad cyfyngedig o effaith dysgu proffesiynol ar arfer addysgu a deilliannau disgyblion. Roedd yn pwysleisio y dylai dysgu proffesiynol fod yn broses barhaus, gan integreiddio gwerthusiad parhaus o strategaethau addysgu a chynnydd disgyblion (OECD, 2021, *Teachers' Professional Learning in Wales*).

Yn fwyaf diweddar, amlygodd adroddiad *Unlocking High-Quality Teaching* (2025) OECD gymhlethdod addysgu fel cymysgedd o wyddoniaeth, celf a chrefft, a nododd bum nod allweddol—ymgysylltiad gwybyddol, cynnwys pwnc o ansawdd uchel, cymorth emosiynol-gymdeithasol, rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth, ac asesu ffurfiannol—wedi'u hategu gan 20 o arferion sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth (t.18, Ffig 1.3). Gan ddefnyddio mewnwelediadau o dros 150 o ysgolion mewn 40 o wledydd, mae'r adroddiad yn pwysleisio bod addysgu effeithiol yn dibynnu ar farn broffesiynol, hyblygrwydd, a chydweithio cynaledig. Mae'n galw am integreiddio ymchwil ac arfer yn well ac yn tanlinellu pwysigrwydd amgylcheddau ysgol ac arweinyddiaeth o ran galluogi addysgu o ansawdd uchel ar draws cyd-destunau amrywiol.

> *"Greater attention is needed not only on what has an impact but also on how, fostering a dynamic process where professional experience and scientific knowledge enrich one another."*
>
> *(OECD 2025, t.157)*

**Strwythur yr adroddiad hwn**

Mae'r adroddiad thematig hwn yn archwilio pa mor effeithiol y mae ysgolion yn datblygu eu dulliau addysgu yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru. Gan adeiladu ar y ffactorau allweddol a drafodwyd uchod, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro'n dair prif adran, y mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agwedd hollbwysig ar wella addysgu a dysgu.

- Mae adran 1 yn archwilio i ba raddau y mae arweinwyr ysgolion wedi sefydlu gweledigaeth glir a dull addysgu ysgol gyfan ochr yn ochr â'r cwricwlwm, pa mor dda y mae athrawon yn deall y weledigaeth hon a pha mor effeithiol y caiff ei chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae adran 2 yn archwilio effaith dysgu proffesiynol ar wella ansawdd addysgu a dysgu, yn ogystal â pha mor effeithiol y mae arweinwyr ysgolion yn meithrin cydweithio ac yn coleddu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn eu hysgolion.
- Mae adran 3 yn ystyried rôl hunanwerthuso mewn meithrin diwylliant o fyfyrio ac effeithiolrwydd cyfunol athrawon i wella addysgu a chydnabod ei effaith ar ddysgu disgyblion.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

- Ddatblygu a chyfleu gweledigaeth glir, ysgol gyfan ar gyfer addysgu effeithiol sy'n cael ei deall a'i chymhwyso'n **feddylgar** gan yr holl staff
- Sicrhau bod cynllunio cwricwlwm wedi'i roi mewn trefn, yn gydlynol ac yn caniatáu i ddisgyblion ailedrych ar wybodaeth a medrau sydd wedi'u nodi'n glir, a'u cymhwyso, mewn profiadau sydd â chyd-destun cyfoethog dros gyfnod
- Rhoi blaenoriaeth i ddysgu proffesiynol cynaledig, cydweithredol sy'n canolbwyntio ar **wella addysgeg** ac sydd wedi'i seilio ar arfer yn yr ystafell ddosbarth a'i heffaith ar ddysgu
- Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso'n canolbwyntio'n fanwl ar ansawdd yr addysgu wedi'i werthuso yn ôl ei **effaith ar gynnydd disgyblion**
- Ymwreiddio cymorth ac anogaeth barhaus a strwythuredig rhwng cymheiriaid i hybu deialog broffesiynol, myfyrio a gwella ar y cyd

**Dylai awdurdodau lleol a phartneriaethau:**

- Gryfhau ymagweddau at ddysgu proffesiynol **sy'n benodol i bynciau** a **chyfnodau** sy'n rhoi blaenoriaeth i addysgu o ansawdd uchel ac sydd wedi'u teilwra i gwricwlwm ac anghenion addysgegol ysgolion
- Cryfhau'r cymorth ar gyfer arwain hunanwerthuso mewn ysgolion er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n fanwl ar wella addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol wedi'u seilio ar ymchwil addysgol o ansawdd uchel, yn ymarferol berthnasol yn yr ystafell ddosbarth ac wedi'u llunio i feithrin arbenigedd addysgegol athrawon dros gyfnod
- Ystyried strategaethau i wella'r amser a'r hyblygrwydd sydd ar gael i ysgolion ar gyfer dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n cefnogi gwelliannau mewn addysgu yn uniongyrchol
- Cryfhau cyfleoedd i awdurdodau lleol, partneriaethau ac ysgolion gydweithio â'i gilydd i rannu arfer effeithiol, mireinio addysgeg a deall ei heffaith ar gynnydd disgyblion
- Cryfhau adnoddau cynllunio cwricwlwm er mwyn sicrhau bod gan athrawon ddealltwriaeth gliriach o gynnydd, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, ac i roi blaenoriaeth i ddatblygu arferion asesu ffurfiannol mwy effeithiol ac ystyrlon.

# Rhoi Gweledigaeth ar Waith

**Datblygu ymagweddau ysgol gyfan tuag at addysgeg**

Mae mwyafrif yr ysgolion a arolygwyd yn ystod 2023-2024 wedi gwneud cynnydd addas wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llwyddiannus. Er bod cynnydd yn amrywio ar draws lleoliadau gwahanol, gydag ysgolion uwchradd a phob oed ar gamau gweithredu cynharach nag ysgolion cynradd, yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cydweithio â'u staff a'u cymunedau lleol i lunio gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm sy'n cyd-fynd â dibenion a nodau Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, maent wedi cydweithio i ddiffinio gweledigaeth gytûn o'u nodau addysgol yn seiliedig ar y pedwar diben ac, yn aml, yn nodi'r prif briodoleddau y maent am i'w dysgwyr eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Fodd bynnag, er bod llawer o ysgolion wedi ystyried yn ofalus y diben y tu ôl i'w cwricwlwm (y pam) ac yn dechrau cryfhau eu dealltwriaeth o ddilyniant ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad (y beth), nid yw lleiafrif o ysgolion yng Nghymru wedi sefydlu disgwyliadau clir a chyson ar gyfer ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol (y sut) hyd yn hyn. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn aml yn cael argymhellion i wella ansawdd yr addysgu, gan nad oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel yn aml, na dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysgu effeithiol. Ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, "gwelwyd diffygion yn yr addysgu yn gyson" (Estyn, 2025).

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, gan gynnwys llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn rhan o'r adroddiad thematig hwn, mae arweinwyr a staff wedi cydweithio â'i gilydd yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm wedi'i hategu gan fframweithiau addysgegol clir. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a staff yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer arfer gyson a medrus yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr yn wynebu heriau o ran sicrhau bod yr holl staff addysgu ar draws ysgolion ac adrannau yn deall dulliau'r ysgol yn llawn ac yn eu cymhwyso'n gyson.

Roedd y dull hwn yn arbennig o bwysig yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw a oedd wedi cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol statudol yn ddiweddar. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn cydnabod bod gwella ansawdd yr addysgu wrth wraidd gwella'r ysgol ac yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dull addysgu cyson, cytûn ar draws yr ysgol.

### Ysgol Gynradd Gellifaelog – Addysgu wrth wraidd gwella'r ysgol

Mae Ysgol Gynradd Gellifaelog wedi trawsnewid yn sylweddol, gan symud allan o gategori gweithgarwch dilynol statudol trwy roi pwyslais cryf ar addysgu o ansawdd uchel. Yn hytrach na chanolbwyntio ar wella dylunio'r cwricwlwm yn unig, roddodd arweinwyr flaenoriaeth i wella arfer yn yr ystafell ddosbarth, gan sicrhau bod dulliau addysgu effeithiol yn cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol.

Menter allweddol yn y trawsnewidiad hwn oedd *'Gellifaelog Guarantees'* (GGs) – sef fframwaith strwythuredig sy'n amlinellu'r disgwyliadau addysgu craidd. Roedd y rhain yn cynnwys technegau holi, modelu, arfer dan arweiniad, a strategaethau addysgu y gellir eu hymaddasu i gefnogi dysgu disgyblion yn well.

Un o brif ysgogwyr gwelliant oedd model anogaeth yr ysgol, a oedd yn annog diwylliant o fyfyrio a chydweithio proffesiynol. Trwy arsylwadau gan gymheiriaid a thrafodaethau anogaeth, mireiniodd athrawon eu harfer ac ymwreiddio dulliau addysgu mwy effeithiol. Rhoddodd yr ysgol ffocws cryf hefyd ar addysgeg sy'n benodol i bwnc, yn enwedig mewn mathemateg, llythrennedd a Chymraeg, i gryfhau cynnydd disgyblion.

O ganlyniad, erbyn hyn, mae gan athrawon ddealltwriaeth gliriach a mwy hyderus o strategaethau addysgu effeithiol. Mae ffocws yr ysgol ar addysgu o ansawdd uchel nid yn unig wedi gwella deilliannau disgyblion, ond hefyd wedi sefydlu ymagwedd gyson ac uchelgeisiol tuag at arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd y fframweithiau addysgu hyn wedi'u seilio ar ddealltwriaeth glir o'r egwyddorion addysgegol sydd wedi'u hamlinellu yn *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015), wedi'u hategu gan fewnwelediadau o ymchwil addysgol berthnasol. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr a staff yn cydnabod pwysigrwydd archwilio'r egwyddorion hyn yn fanylach, gan ddefnyddio ymchwil i lywio a gwella dulliau addysgu, a datblygu dealltwriaeth gliriach o'u cymhwyso'n ymarferol yn yr ystafell ddosbarth.

### Ysgol Uwchradd Fitzalan – Addysgu wedi'i seilio ar ymchwil

Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi datblygu dull addysgu a dysgu sydd wedi'i seilio ar ymchwil, gan sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio strategaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn gyson ar draws yr ysgol. Wrth wraidd y dull hwn y mae fframwaith *"Fitzalan Fundamentals of Good Teaching"* (FAF), sy'n darparu strwythur clir ar gyfer addysgeg effeithiol, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer addasiadau penodol i bynciau.

Un o nodweddion allweddol dull Fitzalan yw defnyddio Egwyddorion Addysgu Rosenshine (2012), sy'n pwysleisio agweddau gan gynnwys sgaffaldiau, holi ac ymarfer adalw yn rheolaidd i gefnogi dysgu disgyblion. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth,

mae athrawon yn strwythuro dysgu gan ddefnyddio “Rydw i’n gwneud, rydym ni’n gwneud, rydych chi’n gwneud”, gan sicrhau bod disgyblion yn gweld cysyniadau’n cael eu modelu’n gyntaf, yna’n eu hymarfer ag arweiniad, ac yn olaf yn cymhwyso dysgu’n annibynnol. Mewn ieithoedd tramor modern, mae staff wedi ymwreiddio gweithgareddau adalw gwasgaredig, fel cwisiau heb lawer yn y fantol a rhyngblethu geirfa, i gryfhau cof hirdymor.

Mae athrawon hefyd yn rhoi blaenoriaeth i asesu ffurfiannol er mwyn addasu addysgu mewn amser real. Mae defnyddio byrddau gwyn bach, holi’n ddiwahoddiad a strategaethau adborth dosbarth cyfan yn sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan yn weithredol ac yr eir i’r afael â chamsyniadau’n brydlon.

Trwy ymwreiddio technegau sydd wedi’u seilio ar ymchwil ar draws pynciau, mae Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi meithrin diwylliant o ddisgwyliadau uchel, lle mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddofn a medrau dysgu annibynnol. Mae’r dull strwythuredig ond hyblyg hwn wedi helpu i godi cyrhaeddiad, gan gynnal ffocws ar arferion addysgu cynhwysol a difyr.

Un ffactor allweddol yn llwyddiant yr ysgolion yr ymwelom â nhw oedd gallu athrawon i gymhwyso ystod o dechnegau’n hyblyg er mwyn ymateb i anghenion disgyblion. Nid oedd yr athrawon mwyaf effeithiol yn dilyn fframweithiau cyfarwyddol yn gaeth; yn hytrach, roeddent yn eu haddasu’n feddylgar ac yn fedrus wrth i wersi fynd yn eu blaenau. Roeddent yn dangos dealltwriaeth glir o pam roedd dulliau penodol yn effeithiol ac yn eu cymhwyso’n fanwl gywir trwy eu haddysgu. Er enghraifft, ym mwyafrif y gwersi a arsylwyd, roedd athrawon yn nodi camsyniadau disgyblion, yn archwilio’r rhesymau y tu ôl iddynt ac yn defnyddio’r mewnwelediad hwn i fodelu’r camau nesaf yn nysgu disgyblion.

“Research works best when it is a tool, not a mandate – adapted and applied by professionals to achieve a specific goal and then assessed to determine whether and how it helps them meet that goal” *(Lemov, 2015, t. 7)*

## Cynllunio ar gyfer Dysgu

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer dysgu yn ganolog i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cryf dros gyfnod. Mae arweiniad rhyngwladol a chenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd dylunio cwricwlwm cydlynol a phwrpasol. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn dadlau o blaid cwricwlwm cynhwysol, wedi’i arwain gan ddibenion, sy’n galluogi athrawon i gynllunio dysgu sy’n ddifyr, yn heriol ac wedi’i integreiddio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae adroddiad *Future of Education and Skills Education 2030* (OECD, 2018) OECD yn amlygu’r angen am aliniad rhwng dibenion y cwricwlwm, dulliau addysgu ac asesu ac yn pwysleisio gwerth helpu disgyblion i greu cysylltiadau ystyrlon ar draws pynciau. Mae’r ddau fframwaith yn cydnabod bod cynllunio cydlynol, o fewn ac ar

draws Meysydd Dysgu, yn hanfodol i gefnogi dilyniant, dyfnhau dealltwriaeth a galluogi disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau mwyfwy cymhleth.

‘Bydd y dibenion cwricwlwm yn bwyntiau cyfeirio cyson ar gyfer penderfyniadau am y ffordd orau o drefnu ac asesu dysgu. Bydd y rhain, ynghyd â’r cynigion ar strwythur a threfniadau asesu, yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal dysgu ymestynnol a dwfn a chymhwyso’r hyn sy’n cael ei ddysgu ar draws y cwricwlwm. Bydd llai o gyfarwyddiadau manwl a mesuriadau perfformiad cul i gyfyngu ar ddulliau addysgu a dysgu.’

*(Donaldson, 2015, t.90)*

Lle mae cynllunio’n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn dylunio gweithgareddau dysgu yn feddylgar, mewn gwersi unigol ac ar draws cyfresi hirach o ddysgu, fel bod disgyblion yn meithrin gwybodaeth a medrau’n gynyddol. Fodd bynnag, mae canfyddiadau diweddar Estyn (2025) yn dangos mai dim ond mwyafrif o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd a gydbwysodd ddatblygiad systematig gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus â chyfleoedd i gymhwyso’r hyn y maent wedi’i ddysgu ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, rhoddwyd argymhellion i tua thraean o ysgolion cynradd a dau draean o ysgolion uwchradd yn ymwneud â chryfhau cynllunio’r cwricwlwm er mwyn sicrhau y caiff medrau disgyblion eu datblygu’n gynyddol a’u cymhwyso’n fwyfwy annibynnol a hyderus. Ar ben hynny, mewn lleiafrif o ysgolion, mae camsyniad o hyd ynghylch sut i ymgorffori’r pedwar diben yn effeithiol mewn cynllunio’r cwricwlwm ac addysgu. Er enghraifft, roedd cynllunio gwersi athrawon yn canolbwyntio ar ‘fodloni’r’ pedwar diben, yn hytrach na datblygu’r wybodaeth a’r medrau allweddol y maent am i ddisgyblion eu datblygu (Estyn 2025).

*"Mae trefnwyr gwybodaeth yn ein helpu i fod yn chwilfrydig am bwnc cyn i ni ddechrau, felly pan fyddwn ni’n dechrau, rydyn ni’n gwybod ychydig bach yn barod. Ar ddechrau pynciau newydd, mae fel ‘sut ydw i fod i wybod hyn i gyd?’ Ond erbyn y diwedd, dwi’n gallu edrych yn ôl a gweld faint o gynnydd dwi wedi’i wneud."*

(Disgybl Blwyddyn 6)

Mae arweinwyr a staff mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelom â nhw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn wedi gweithio ar y cyd i gryfhau eu dealltwriaeth o ddilyniant effeithiol ar draws y cwricwlwm. Maent wedi datblygu fframweithiau clir a manwl sy’n amlinellu’r wybodaeth a’r medrau y maent yn disgwyl i ddisgyblion eu caffael dros gyfnod. Yn aml, roedd y fframweithiau hyn yn ymgorffori fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac roeddent yn cael eu defnyddio i greu cynlluniau tymor canolig a oedd yn nodi’r cynnydd disgwyliedig dros gyfnod penodol, fel tymor neu hanner tymor. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion wedi dylunio eu cwricwla i adeiladu’n systematig ar wybodaeth flaenorol disgyblion, yn ogystal â chynnig cyfleoedd ystyrlon i gymhwyso’r medrau hyn mewn cyd-destunau lluosog.

### Ysgol Gynradd Dewstow – Addysgu a Dilyniant

Rhoddwyd Ysgol Gynradd Dewstow mewn categori gweithgarwch dilynol statudol ar ôl ei harolygiad craidd ym mis Mai 2022. Yn ogystal ag argymhellion i wella ansawdd yr addysgu, cynghorwyd yr ysgol i wella cynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau y caiff medrau disgyblion eu datblygu'n fwy systematig. Er mwyn ymateb i hynny, cydnabu arweinwyr yr ysgol yr angen am ddull cyson o gynllunio'r cwricwlwm ac addysgu.

Trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol, cydweithiodd staff i ddatblygu Gweledigaeth Strategol ar gyfer Addysgu a Dysgu, wedi'i theilwra i fodloni anghenion pob dysgwr. Creodd staff fframwaith dilyniant medrau ysgol gyfan ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, sydd bellach yn sail i gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel.

Er enghraifft, mewn llythrennedd, datblygwyd dull strwythuredig o ysgrifennu mewn partneriaeth â swyddogion gwella'r consortiwm. Erbyn hyn, mae hyn yn darparu fframwaith i athrawon ar gyfer cynllunio'n gydlynol ac yn gynyddol ar gyfer addysgu ysgrifennu. Ar ben hynny, roedd arweinwyr yr ysgol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addysgeg y blynyddoedd cynnar, sydd bellach yn ffurfio sylfaen ar gyfer dylunio'r cwricwlwm ar draws yr ysgol gyfan. Mae dilyniant medrau wedi'i fapio'n glir o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6 mewn meysydd fel chwarae â blociau, modelu â chlai, gwnïo a chelf. Mae'r dogfennau dilyniant hyn yn cefnogi staff i gynllunio profiadau dysgu difyr sy'n briodol yn ddatblygiadol ac yn meithrin lefelau uchel o annibyniaeth ac wedi cyfrannu at ymddygiad gwell ar gyfer dysgu.

Mae athrawon yn datblygu eu strategaethau asesu ffurfiannol ac yn cynnwys arsylwadau rheolaidd o ddisgyblion er mwyn sicrhau bod eu cynllunio'n parhau i fod yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Erbyn hyn, mae staff ac arweinwyr yn defnyddio ystod o wybodaeth asesu, gan gynnwys deilliannau craffu ar lyfrau, cyfarfodydd cynnydd disgyblion, data profion a monitro targedig o grwpiau, fel y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o gynnydd disgyblion ac addasu addysgu'n unol â hynny.

O ganlyniad i'r gwaith ffocysedig a chynaledig hwn, cydnabuwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol a chafodd ei thynnu'n llwyddiannus o'r categori gweithgarwch dilynol ym mis Ebrill 2024.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd staff yn cydweithio â'i gilydd i ddylunio cynlluniau tymor canolig, gan gydnabod pwysigrwydd ailedrych ar gysyniadau a medrau allweddol i atgyfnerthu dealltwriaeth a dyfnhau dysgu. Lle'r oedd cynllunio'n llai effeithiol, roedd y cwricwlwm yn datblygu'n rhy gyflym, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu meistrolaeth ar bynciau, dyfnhau eu dealltwriaeth neu gymhwyso

eu medrau'n ystyrlon ar draws meysydd dysgu gwahanol. Er bod adrannau mewn lleiafrif o'r ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw yn dechrau cydweithio â'i gilydd i ddylunio dulliau mwy integredig o gynllunio'r cwricwlwm, mewn llawer o achosion, roedd cynllunio'n digwydd ar wahân o fewn meysydd pwnc o hyd. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau ar draws eu dysgu a chymhwyso medrau mewn cyd-destunau ehangach a mwy ystyrlon.

### Ysgol Maelor – Dilyniant mewn Cymhwysedd Digidol

Yn Ysgol Maelor, mae ymagwedd strwythuredig at ddilyniant cymhwysedd digidol (FfCD) wedi'i hymwreiddio ar draws y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol mewn llythrennedd data a gwybodaeth. Mae'r Cydlynydd Digidol, sydd hefyd yn Bennaeth TGCh, wedi chwarae rôl allweddol mewn sefydlu ysgolion cynnydd sy'n cefnogi datblygu medrau o lythrennedd digidol sylfaen i ddatrys problemau a modelu uwch.

Mae cydweithio ar draws y consortiwm rhanbarthol a chydweithwyr cynradd yn y clwstwr wedi cryfhau'r ymagwedd hon, gan sicrhau bod disgyblion yn meithrin cymhwysedd digidol mewn modd rhesymegol a chynyddol. Yn yr ysgol uwchradd, mae'r Cydlynydd Digidol wedi cydweithio'n agos ar arweinwyr pwnc i ddatblygu cyfleoedd pwrpasol a dilys i ymgorffori medrau digidol yn y cwricwlwm.

Un enghraifft yw'r cydweithio â'r Pennaeth Celf, lle cyflwynwyd meddalwedd golygu digidol a thrin delweddau i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu portffolios digidol. Mae'r fenter hon wedi gwella dealltwriaeth myfyrwyr o ddatblygu celf ddigidol, gan ganiatáu iddynt fireinio eu medrau mewn cyd-destun creadigol, go iawn.

Ar ben hynny, mae Ysgol Maelor yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau datrys problemau a modelu yn gynyddol, gan eu harfogi â medrau digidol trosglwyddadwy sy'n eu paratoi ar gyfer addysg bellach a gyrfaoedd yn y dyfodol.

Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn creu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddyfnhau eu dysgu trwy ymgorffori cymwysiadau'r byd go iawn yn eu pynciau. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Stanwell ym Mro Morgannwg, roedd athrawon yn cyfuno adnoddau o ansawdd uchel â phroblemau go iawn a oedd yn gofyn i ddisgyblion gymhwyso eu medrau daearyddol. Roedd gan athrawon wybodaeth arbenigol am y pwnc a disgwyliadau uchel o'u disgyblion i ddefnyddio meddwl beirniadol i ddatblygu 'dadansoddiad amddiffyn', gan werthuso opsiynau amrywiol ar gyfer amddiffynfa arfordirol mewn ardal benodol o Gymru.

Yn yr ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, roedd athrawon yn aml yn defnyddio eu hardal leol i wella eu dysgu a datblygu dealltwriaeth o 'Gynefin'.

### Ysgol Gynradd Llanllechid – Defnyddio'r Ardal Leol i Gyfoethogi Dysgu

Mae Llanllechid wedi datblygu cwricwlwm cyfoethog, wedi'i seiliedig ar le, sy'n sicrhau bod disgyblion yn creu cysylltiadau ystyrlon rhwng eu haddysg a'u treftadaeth leol. Trwy ymwreiddio hanes, daearyddiaeth a diwylliant lleol yn y dysgu, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu medrau hanfodol wrth ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

Enghraifft ardderchog o'r dull hwn yw astudio John Petts, sef artist lleol o'r 19eg ganrif a gododd arian ar gyfer cymuned pobl dduon yn Alabama yn dilyn trychineb yn gysylltiedig â chaethwasiaeth. Archwiliodd disgyblion anghyfiawnderau hanesyddol trwy ymchwilio i fywydau gweithwyr llechi yn Chwarel Penrhyn yn ystod oes Fictoria a chymharu eu profiadau â chaethweision yn Jamaica ar yr un pryd. Trwy'r prosiect hwn, datblygodd disgyblion eu medrau darllen trwy ddadansoddi testunau hanesyddol, ac wedyn gwella eu medrau ysgrifennu a chyfathrebu trwy ddrafftio a chyflwyno adroddiad i'w cyfoedion.

Y tu hwnt i hanes, mae Llanllechid hefyd yn integreiddio themâu lleol, fel ffermio tir comin a hanes amaethyddiaeth. Trwy astudio arferion ffermio traddodiadol, mae disgyblion yn cymhwyso eu dysgu i gyd-destunau'r byd go iawn, gan sicrhau bod diben clir i bopeth sy'n cael ei addysgu. Mae'r dull hwn yn cryfhau ymgysylltiad, yn dyfnhau gwybodaeth ac yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth yn y gymuned leol a byd-eang.

Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, datblygodd staff ac arweinwyr gyfleoedd da i ddisgyblion ehangu eu gorwelion a dyfnhau eu dealltwriaeth o Gymru amlddiwylliannol. Trwy ystod o weithgareddau pwrpasol, roedd yr ysgolion hyn yn dechrau ymwreiddio profiadau dysgu sy'n dathlu amrywiaeth ac yn hybu cynhwysiant. Roedd y dulliau hyn yn helpu disgyblion i werthfawrogi gwead diwylliannol cyfoethog Cymru a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at bobl o gefndiroedd gwahanol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd y gwaith hwn yn dod yn rhan annatod o addysgu, cwricwlwm ac ethos ehangach yr ysgol.

### Ysgol Gymraeg Llwyncelyn – Chwalu Ffiniau

Mae Ysgol Gymraeg Llwyncelyn yn rhoi pwyslais cryf ar brofiadau go iawn i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o Gymru amlddiwylliannol. Caiff hyn ei enghreifftio yn eu gwaith thematig, Chwalu Ffiniau, sydd â'r nod o chwalu ffiniau trwy annog disgyblion i ehangu eu gorwelion a chael cipolwg ar fywydau pobl eraill.

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaeth werthfawr ag Ysgol Gynradd Mount Stuart ac mae'n croesawu siaradwyr gwadd yn rheolaidd, sy'n rhannu eu profiadau personol o fyw mewn cymdeithas amrywiol. Mae ffocws clir a chyson ar archwilio gwahanol grefyddau, hanesion, diwylliannau, ieithoedd a chefndiroedd pobl ledled Cymru a thu hwnt. Trwy'r

gwaith hwn, mae disgyblion yn datblygu’n unigolion gwybodus a pharchus sydd wedi’u paratoi’n dda i chwarae rôl gadarnhaol mewn cymdeithas amlddiwylliannol.

### Arfer yn yr ystafell ddosbarth

Mae cynllunio effeithiol yn darparu’r sylfaen ar gyfer addysgu o ansawdd uchel. Pan fydd athrawon yn glir ynghylch yr hyn y maent am i ddisgyblion ei ddysgu, maent yn gallu dewis y dulliau addysgu mwyaf priodol yn well i helpu disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn holi’n fwy effeithiol ac yn canolbwyntio’n fwy meddylgar ar asesu ffurfiannol sy’n galluogi disgyblion i wneud cynnydd. Lle’r oedd ysgolion yn datblygu cynlluniau cwricwlwm tra ystyriol, roedd athrawon yn fwy tebygol o fagu’r hyder i ganolbwyntio ar ffordd orau i gyflwyno dysgu, gan ddefnyddio ystod o strategaethau i fodloni anghenion disgyblion ac adeiladu ar wybodaeth flaenorol.

#### Ysgol Gynradd St Andrew – Cynllunio ac Addysgeg

Mae staff ar draws yr ysgol yn cydweithio â’i gilydd i greu cynllunio tymor canolig manwl  a theithiau dysgu sy’n nodi’r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wybod a gallu ei wneud dros gyfnod. Mae’r cynlluniau hyn yn helpu athrawon i ganolbwyntio ar y dysgu pwysicaf a sicrhau ei fod yn datblygu mewn ffordd resymegol a phwrpasol. I gefnogi hyn, mae’r ysgol wedi datblygu offer syml, ymarferol – fel ‘matiau’ addysgu – sy’n atgoffa staff o’r egwyddorion allweddol ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Mae sesiynau cynllunio tîm rheolaidd a digwyddiadau dysgu proffesiynol yn rhoi’r amser a’r cymorth sydd eu hangen ar athrawon i fyfyrio ar yr hyn sy’n gweithio’n dda ac i addasu eu haddysgu i fodloni anghenion eu disgyblion. Mae athrawon hefyd yn defnyddio asesu parhaus i wirio pa mor dda y mae disgyblion yn dysgu ac i wneud addasiadau amserol i’w gwersi. Mae’r dull cytûn hwn o gynllunio ac addysgu yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael profiad o wersi cyson a difyr sy’n adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod ac yn eu helpu i wneud cynnydd da.

Mewn llawer o’r gwersi a arsylwom yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion ar gyfer yr adroddiad thematig hwn, roedd yr addysgu’n effeithiol ac yn ddifyr. Yn y gwersi hyn, roedd athrawon yn sefydlu disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiadau dysgu disgyblion ac yn defnyddio ystod o ddulliau i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu trwy gydol y gwersi. Yn yr achosion gorau, roedd arferion a oedd wedi’u hymwreiddio yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o’u tasgau ac yn ymgysylltu’n gyflym â gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd disgwyliadau athrawon ar gyfer ymgysylltiad disgyblion â’u dysgu yn ddigon uchel, er enghraifft wrth sicrhau cyfranogiad ystyrlon mewn trafodaethau dosbarth. Yn y gwersi hyn, roedd disgyblion weithiau’n aros yn oddefol ac yn rhoi ymatebion byr neu gyfyngedig yn unig. Yn yr achosion hyn, nid oedd athrawon yn disgwyl i ddisgyblion esbonio eu

meddylfryd yn fanwl bob tro ac nid oeddent yn modelu’n gyson sut i drafod syniadau neu fyfyrio ar ddysgu yn ddigon clir.

“*Mae athrawon yn gwneud yn siŵr fod yr hyn rydyn ni’n ei ddysgu yn datblygu o un wers i’r llall. Maen nhw’n crynhoi dysgu blaenorol ac yn esbonio sut mae’n adeiladu ar yr hyn rydyn ni’n ei wybod eisoes." (Disgybl Blwyddyn 5)*

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio’n ofalus ar gyfer dysgu disgwyliedig y disgyblion, gan osod amcanion clir a strwythuredig yr oeddent yn eu rhannu a’u trafod â’u disgyblion. Yn aml, roedd yr athrawon hyn yn esbonio diben y dysgu’n glir ac yn ei gysylltu’n effeithiol â gwybodaeth flaenorol i ysgogi meddwl disgyblion a chreu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm. Mewn ychydig o wersi a arsylwyd, roedd athrawon yn defnyddio enghreifftiau o waith disgyblion i amlygu deilliannau dysgu cryf neu nodi camsyniadau cyffredin cyn cyflwyno’r camau nesaf mewn dysgu. Roedd y dull hwn yn galluogi disgyblion i gadarnhau dealltwriaeth o feini prawf llwyddiant ar y cyd a datblygu dealltwriaeth gryfach o sut olwg sydd ar ddarn o waith llwyddiannus.

*"Mae athrawon yn sylw pan nad ydyn ni’n siŵr am rywbeth ac maen nhw’n newid eu haddysgu i atgyfnerthu pethau rydyn ni’n cael trafferth â nhw."*
(Disgybl Blwyddyn 6)

Lle’r oedd athrawon yn glir ynghylch y dysgu arfaethedig, roeddent yn aml yn cynllunio ac yn defnyddio holi yn effeithiol i ddyfnhau meddwl disgyblion a chasglu adborth gwerthfawr ar eu dealltwriaeth. Er enghraifft, roedd athrawon mathemateg yn Ysgol Bro Myrddin yn defnyddio technegau holi strwythuredig i asesu gwybodaeth flaenorol, ond roeddent hefyd yn cynnwys atebion anghywir i greu gwrthdaro gwybyddol, gan herio disgyblion i ddatrys problemau ac ailystyried eu dull.

Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn addasu eu gwersi er mwyn ymateb i atebion disgyblion, gan nodi camsyniadau neu feysydd a oedd yn peri her. Er enghraifft, yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, roedd athrawon yn gwirio dealltwriaeth disgyblion o alw geirfa i gof mewn gwersi Ffrangeg gan ddefnyddio byrddau gwyn bach. Mae’r dull hwn yn eu galluogi i gywiro camgymeriadau, modelu ynganiad a chynnig ymarfer ychwanegol, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu cywirdeb a hyder yn eu dysgu.

Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd athrawon yn ystyried eu holi’n ddigon meddylgar i hybu dysgu ac roedd disgwyliadau ar gyfer ymatebion disgyblion yn rhy isel. O ganlyniad, roedd athrawon yn aml yn gorddibynnu ar gwestiynau galw i gof syml, gan leihau cyfleoedd i ddisgyblion adeiladu ar ymatebion ei gilydd, cymryd rhan mewn trafodaethau cydweithredol neu ddatblygu atebion estynedig, wedi’u strwythuro’n dda i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Ar ben hynny, mewn rhai gwersi, roedd athrawon yn dibynnu

gormod ar ‘wirfoddolwyr’ i ateb cwestiynau, a oedd yn cyfyngu ar ymgysylltiad disgyblion eraill ac yn cyfyngu ar gyfranogiad ehangach.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd athrawon yn defnyddio asesu ffurfiannol yn dda i addasu eu haddysgu. Er enghraifft, roedd athrawon yn myfyrio’n rheolaidd ar effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion yn ddyddiol neu’n wythnosol ac yn defnyddio hyn i gynllunio gwersi dilynol. Yn aml, roedd athrawon yn dylunio tasgau dysgu ar ddechrau pynciau i brofi dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol, yn dadansoddi eu hymatebion ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio’n systematig i ddatblygu eu gwybodaeth a’u medrau. Yn aml, roedd athrawon disgyblion iau yn defnyddio dull ‘cynllunio yn y foment’, lle caiff arsylwadau o ddysgu disgyblion eu defnyddio i addasu darpariaeth yn ofalus i ddilyn eu diddordebau neu ddatblygu eu dealltwriaeth a’u medrau. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd asesu’r blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio gormod ar olrhain trwy ddull ‘ticio blwch’ a defnyddio offer digidol i gofnodi dysgu disgyblion, yn hytrach na llunio addysgu’n effeithiol mewn gwersi neu dros gyfnod. Ar ben hynny, er bod arweinwyr ac athrawon, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn casglu ystod eang o ddata asesu yn rheolaidd, yn aml, nid oedd y defnydd ohono i addasu neu newid dulliau addysgu wedi’i ddatblygu’n ddigonol. Er enghraifft, roedd cyfleoedd i ddefnyddio’r wybodaeth hon i helpu disgyblion i sicrhau a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol dros gyfnod yn aml yn cael eu colli.

Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd athrawon yn defnyddio adborth yn addas i gefnogi disgyblion i symud eu dysgu ymlaen. Yn yr achosion gorau, roedd yr adborth yn amserol ac yn benodol i nodau dysgu’r wers, gan roi dealltwriaeth glir i ddisgyblion o’u camau nesaf. Yn y rhan fwyaf o wersi, roedd athrawon yn defnyddio adborth llafar yn effeithiol. Fodd bynnag, lle’r oedd athrawon yn defnyddio adborth ysgrifenedig i gefnogi dysgu, roedd yn fwy amrywiol o ran ei ansawdd a’i effaith. Yn yr achosion gorau, roedd yn cael ei ddefnyddio’n ddoeth ac yn annog disgyblion i ailedrych ar waith, myfyrio ar y meysydd i’w gwella a chymhwyso’r ddealltwriaeth hon yn gyflym i wella eu dysgu. Lle’r oedd adborth yn llai effeithiol, nid oedd yn ddigon penodol i helpu disgyblion i ddeall yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud nesaf ac roedd disgwyliadau i ddisgyblion weithredu ar  yr adborth hwn yn rhy isel.

Yn aml, roedd athrawon, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol ar gyfer asesu cyfoedion a hunanasesu mewn gwersi. Lle mae hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn deall, er mwyn i hunanasesu ac asesu cyfoedion fod yn werthfawr, bod angen iddynt addysgu disgyblion sut i werthuso’n llwyddiannus. Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu i ddefnyddio meini prawf llwyddiant clir i farnu ansawdd gwaith, nodi meysydd i’w gwella a chynnig adborth adeiladol i’w cyfoedion. Roedd athrawon yn modelu’r broses

hon yn ofalus, gan ddefnyddio enghreifftiau o waith disgyblion yn aml i archwilio sut olwg sydd ar lwyddiant a beth y gellid ei wella. O ganlyniad, yn yr achosion hyn, roedd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gryfach o ddisgwyliadau dysgu ac yn dod yn fwy hyderus wrth fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain. Fodd bynnag, lle'r oedd asesu cyfoedion a hunanasesu yn llai effeithiol, yn rhy aml roeddent yn disodli adborth o ansawdd uchel gan athrawon, yn cymryd amser gwerthfawr mewn gwersi ac yn cael effaith gyfyngedig ar ddysgu disgyblion. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn deall yn llawn sut i asesu gwaith yn gywir neu sut i ddefnyddio adborth i wneud gwelliannau ystyrlon, gan arwain at ymgysylltiad mwy arwynebol â'r broses ddysgu.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd asesu ffurfiannol yn rhoi disgyblion yng nghanol y broses ddysgu trwy roi dealltwriaeth glir a pharhaus iddynt o'u cynnydd. Trwy adborth, hunanasesu a gwerthuso cyfoedion wedi'u targedu, roedd disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, a oedd yn eu galluogi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Mae'r dull hwn yn cefnogi ymgysylltiad dyfnach a chymhelliant cynyddol ac yn annog agweddau cadarnhaol at ddysgu.

### Ysgol Bro Banw – Disgyblion wrth wraidd y broses ddysgu

Cynlluniwyd addysgu yn yr ysgol i roi disgyblion wrth wraidd eu dysgu trwy feithrin eu hannibyniaeth a'u hymgysylltiad â'r broses ddysgu. Mae gwersi wedi'u strwythuro i sicrhau bod disgyblion yn chwarae rôl weithredol yn eu dysgu ac mae'r egwyddorion hyn wedi'u hen sefydlu trwy'r ysgol gyfan.

Mae athrawon yn defnyddio strategaethau sefydledig, fel tasgau 'oer' sydd wedi'u llunio'n feddylgar mewn llythrennedd a mathemateg, i asesu mannau cychwyn disgyblion a chynllunio gwersi sy'n bodloni eu hanghenion. Caiff gwaith disgyblion eu hunain ei ddefnyddio'n rheolaidd i nodi camsyniadau, gan alluogi athrawon i fynd i'r afael â bylchau mewn dealltwriaeth ac arwain dysgu pellach. Mae dulliau adborth yn annog disgyblion i feddwl yn feirniadol, myfyrio ar eu dysgu a chymryd cyfrifoldeb am eu camau nesaf.

Trwy sicrhau bod eu cynnydd yn weladwy, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o hunaneffeithiolrwydd ac agwedd gadarnhaol, sy'n eu grymuso i groesawu heriau'n hyderus. Ar ben hynny, mae cyfleoedd mynych i ddyfnhau dysgu trwy addysgu gan gyfoedion—fel creu perfformiadau drama i archwilio themâu empathi neu arwain disgyblion o ddosbarthiadau eraill i dyfu, paratoi a choginio bwyd ar gyfer y gymuned—yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u medrau wrth feithrin cydweithio a chyfrifoldeb cymdeithasol.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, roedd athrawon yn aml yn meddwl yn ofalus am sut y gallai eu hamgylcheddau dysgu gefnogi ansawdd ac effeithiolrwydd eu haddysgu ymhellach. Er enghraifft, yn aml, roedd gan athrawon

disgyblion iau ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac roeddent yn creu amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi arfer gref o ran dysgu sylfaen. Yn aml, roedd y rhain yn annog disgyblion i archwilio, mentro, datblygu eu creadigrwydd a chymhwyso eu medrau mewn ystod o gyd-destunau.

### Ysgol Parc y Llan – Datblygu amgylcheddau dysgu awyr agored

Gweledigaeth yr ysgol yw creu amgylcheddau dysgu cyfoethog a symbylol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau'n bwrpasol. Mae staff wedi cynllunio'r holl ardaloedd dysgu'n feddylgar, gan gynnwys ystod o adnoddau diddorol ac ymarferol, gan gynnwys 'darnau rhydd', y mae disgyblion yn eu defnyddio wrth chwarae rôl ac wrth ddatblygu eu medrau meddwl a chreadigol. Er enghraifft, mae'r ardal adeiladu awyr agored yn cynnwys deunyddiau adeiladu go iawn, fel paledi, cratiau ac amrywiaeth o eitemau trydanol wedi'u hailgylchu, gan gynnwys driliau, gwifrau a cheblau. Mae'r adnoddau hyn yn tanio dychymyg a chreadigrwydd disgyblion yn effeithiol, gan eu cymell i gynllunio ac adeiladu strwythurau'n feddylgar, fel llochesi a thai, gan roi sylw manwl i ansawdd a manylder.

Yn yr enghreifftiau gorau, roedd athrawon disgyblion iau yn galluogi dysgu yn fedrus, ond hefyd yn cynnal disgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Er enghraifft, roedd staff yn Ysgol Gynradd Penclawdd yn fodelau iaith cryf, gan integreiddio geirfa soffistigedig yn ddi-dor yn eu gwersi a'u rhyngweithiadau bob dydd. O ganlyniad, roedd disgyblion, gan gynnwys y dysgwyr ieuengaf, yn deall ac yn ymgorffori'r iaith gyfoethog hon yn naturiol yn eu gweithgareddau dysgu.

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn dysgu sut i gydweithio a gweithio'n greadigol, gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a gweld bod yr hyn y maent yn ei wneud yn berthnasol i'w hanghenion yn awr ac yn y dyfodol. *(Donaldson, 2015. t. 110)*

Agwedd allweddol ar addysgu effeithiol o fewn Cwricwlwm i Gymru yw darparu cyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu trwy gyd-destunau dilys a pherthnasol. Mewn llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, ac ychydig o'r ysgolion uwchradd, roedd staff yn meddwl yn ofalus am anghenion a phrofiadau eu disgyblion. Roeddent yn dylunio dysgu sy'n bwrpasol ac yn ddifyr, gan sicrhau bod dulliau addysgu a chynnwys y cwricwlwm yn cyd-fynd â bywydau disgyblion. Roedd yr ysgolion hyn yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall sut mae eu dysgu'n berthnasol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan eu helpu i weld ei berthnasedd a'i effaith bosibl ar eu bywydau a'u dyfodol eu hunain.

### Ysgol Emmanuel – Sicrhau bod dysgu'n berthnasol

Mae athrawon yn galluogi dysgu cyfoethog a phwrpasol trwy ddylunio gweithgareddau difyr sydd wedi'u gwreiddio mewn cyd-destunau go iawn. Ym Mlwyddyn 3, er enghraifft, maent yn arwain Prosiectau Menter Gymdeithasol, gan weithio ochr yn ochr ag asiantaethau allanol i ehangu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cymdeithasol lleol a byd-eang. Trwy'r prosiect hwn, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiwn casglu sbwriel noddedig, yn llunio partneriaethau â sefydliadau fel *Surfers Against Sewage* i lanhau traethau ac yn codi arian i gefnogi achosion cymdeithasol, fel tyfu cynnyrch yng ngardd yr ysgol a helpu'r bobl ddigartref yn eu cymuned. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o 'gynefin', yn enwedig mewn cymuned y mae difreintedd economaidd-gymdeithasol yn effeithio arni.

Mae athrawon hefyd yn ennyn chwilfrydedd a dychymyg trwy gyflwyno pynciau â 'bachau' creadigol. Maent yn gosod problemau go iawn sy'n gofyn i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd a datrys dirgelion yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r dulliau hyn nid yn unig yn sicrhau bod dysgu'n fwy difyr, ond hefyd yn rhoi ystyr go iawn iddo, gan helpu disgyblion i gysylltu â'u gwaith a sicrhau bod dysgu'n bwrpasol.

# Dysgu proffesiynol

## Gwella ansawdd addysgu

Mae dysgu proffesiynol athrawon yn ffactor hollbwysig o ran gwella deilliannau dysgu disgyblion. Mae ymchwil yn dangos yn gyson mai addysgu o ansawdd uchel sy'n cael yr effaith fwyaf ar gyflawniad myfyrwyr (Hattie, 2009). Felly, ni ddylid ystyried datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr yn ychwanegiad dewisol, ond yn elfen sylfaenol o system addysg effeithiol (Hargreaves & Fullan, 2012). Fel mae Dylan Wiliam yn honni, *'Every teacher needs to improve, not because they are not good enough, but because they can be even better'.* Mae'r ymrwymiad hwn i welliant parhaus yn fwyaf effeithiol pan fydd dysgu proffesiynol yn gynaledig, yn gydweithredol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae ysgolion sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad athrawon yn creu amgylcheddau lle caiff addysgwyr eu grymuso i fireinio eu harfer, gan arwain at welliannau i ddeilliannau myfyrwyr ac effeithiolrwydd cyffredinol ysgolion, yn y pen draw. Fel y mae Fullan (2014) yn pwysleisio,

> *"when the school is organised to focus on a small number of shared goals, and when professional learning is targeted to those goals and is a collective enterprise, the evidence is overwhelming that teachers can do dramatically better by way of student achievement"* (t. 83).

Felly, mae ymwreiddio dysgu proffesiynol yn niwylliant ysgolion yn hanfodol ar gyfer llwyddiant addysgol hirdymor.

'Increasing the availability of high-quality CPD has been shown to improve retention problems, particularly for early-career teachers'.

*(Sefydliad Polisi Addysg 2020)*

Mae adroddiad diweddar gan Gyngor y Gweithlu Addysg (2024) yn amlygu cyfraddau pryderus o ran cadw athrawon yng Nghymru, gyda bron i chwarter yn gadael cyn pen pum mlynedd a thua 40% cyn pen deng mlynedd. Nododd trafodaethau ag undebau athrawon yn ystod yr adolygiad thematig hwn fod llwyth gwaith, ymddygiad disgyblion, ymdeimlad o bwrpas a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y duedd hon. Mae ymchwil yn dangos bod datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel yn chwarae rôl allweddol mewn gwella boddhad a chyfraddau cadw athrawon (Sefydliad Polisi Addysg, 2020). Gallai hefyd helpu i fynd i'r afael â'r gostyngiad presennol mewn ceisiadau am rolau uwch arweinyddiaeth yng Nghymru (AGAA, 2024). Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa neu lle mae hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddulliau ar gyfer pynciau penodol, fel gwyddoniaeth uwchradd (Education Datalab, 2017). Fodd bynnag, dim ond tua thraean o athrawon yng

Nghymru sy'n ymgymryd â mwy na 30 awr o ddysgu proffesiynol y flwyddyn. O gymharu â'r llwyth gwaith cyfartalog a grybwyllwyd, sef 56 awr yr wythnos, mae hyn yn cyfateb i tua hanner awr o ddysgu proffesiynol yr wythnos (Adroddiad Arolwg Cenedlaethol y Gweithlu Addysg 2021, t. 76).

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgolion yr ymwelom â nhw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn yn nodi bod dysgu proffesiynol yn disgyn i bedwar categori, fel arfer: datblygu'r cwricwlwm, gwella addysgu, lles/ADY disgyblion, ac iechyd a diogelwch/diogelu. At ei gilydd, roedd ysgolion cynradd yn dosbarthu amser yn gyfartal ar draws y meysydd hyn, yn gyffredinol, ac roedd ysgolion uwchradd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r cwricwlwm. Yn nodedig, roedd llawer o ysgolion yn rhoi mwy o bwyslais ar ADY a lles, ac roedd diwrnodau dysgu proffesiynol yn cael eu defnyddio fwyfwy i uwchsgilio staff mewn meysydd fel niwroamrywiaeth, iechyd meddwl ac arfer sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn, ochr yn ochr â gofynion dysgu proffesiynol statudol rheolaidd, fel diogelu, yn cyfyngu'n sylweddol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm a gwella ansawdd addysgu. Yn baradocsaidd, mae ymchwil yn dangos bod dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgu o ansawdd uchel yn cynnig manteision penodol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais. Mae strategaethau fel cyfarwyddyd penodol, sgaffaldiau a dulliau metawybyddol yn arbennig o effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a, phan gânt eu rhoi ar waith yn dda, gallant leihau'r angen am gymorth ychwanegol (EEF, 2021a).

Fel y nodwyd mewn adroddiad thematig diweddar ar y system anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru, yn yr ysgolion gorau, roedd ymdrechion i wella darpariaeth i ddisgyblion ag ADY yn rhan o ymgyrch ysgol gyfan i wella addysgu a dysgu i bob disgybl (Estyn, 2024b, t. 9).

"…we define teacher professional development as structured and facilitated activity for teachers intended to increase their teaching ability. The emphasis on 'teaching ability' is key"
*(EEF, 2021b, Effective Professional Development)*

Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn defnyddio'r amser cyfyngedig hwn yn ofalus i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cyd-fynd yn agos â'u gweledigaeth ar gyfer addysgu a'u blaenoriaethau strategol ysgol gyfan. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, tynnodd staff ac arweinwyr sylw at gyfyngiadau o ran amser a'r gyllideb fel rhwystrau sylweddol rhag dysgu proffesiynol, yn enwedig ar gyfer meysydd 'anstatudol' fel cadw ffocws uniongyrchol ar addysgu. Yn yr ysgolion hyn, roedd prinder cyfleoedd i staff fyfyrio ar eu heffaith yn yr ystafell ddosbarth yn her allweddol, gan ei gwneud yn anodd nodi ac ymwreiddio arferion effeithiol. Lle'r oedd dysgu proffesiynol yn llai effeithiol, roedd gan ysgolion ormod o feysydd ffocws, a oedd yn

arwain at ddysgu tameidiog yr oedd staff yn ei chael yn anodd ei gynnal a'i ymwreiddio yn eu harfer bob dydd.

I'r gwrthwyneb, lle'r oedd dysgu proffesiynol yn cael ei effaith gryfaf, roedd yn aml yn cynnwys ymrwymiad cytûn gan arweinwyr a staff i wella agwedd ar addysgu dros gyfnod. Yn yr achosion hyn, roedd arweinwyr yn gweithio ar y cyd â staff i nodi agwedd ar addysgu yr oedd angen ei chryfhau. Roeddent yn creu cyfleoedd dysgu proffesiynol a oedd yn annog staff i gydweithio â'i gilydd i fireinio eu harfer a myfyrio ar ei heffaith ar ddysgu disgyblion yn rheolaidd.

### Ysgol Gynradd Priordy Cil-maen – Targedu Dysgu Proffesiynol

Nododd arweinwyr fod llafaredd yn fedr sylfaenol ar gyfer llwyddiant disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ar ôl effaith negyddol COVID-19. I fynd i'r afael â hyn, ymchwiliodd y pennaeth i ddulliau gwahanol a ddefnyddir gan ysgolion eraill a dewis model strwythuredig, wedi'i lywio gan ymchwil, i ddatblygu llafaredd.

Cyflwynwyd strategaethau'n raddol, sef tair bob tymor, a chafodd yr holl staff hyfforddiant. Atgyfnerthwyd y dull hwn trwy gyfarfodydd staff, lle'r oedd athrawon yn myfyrio ar effaith y dulliau hyn yn eu hystafelloedd dosbarth. Modelodd ychydig o aelodau staff dechnegau a chynnig anogaeth i aelodau staff eraill, gan gefnogi cysondeb ar draws yr ysgol.

Ymestynnodd y fenter y tu hwnt i wersi, gan gael ei hymwreiddio ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys gwasanaethau ac amseroedd egwyl. Dangosodd data olrhain disgyblion fod llafaredd wedi gwella, gan arwain at welliannau mewn llythrennedd a gwella ymgysylltiad â meysydd eraill o'r cwricwlwm, yn enwedig y rhai a oedd yn cynnwys datrys problemau a gwaith grŵp.

Ar ôl blwyddyn o fod ar waith, cytunodd staff fod y dull yn gweithio'n dda a chafodd ei gryfhau ymhellach trwy gynnwys cyfarwyddyd geirfa eglur i wella iaith swyddogaethol disgyblion. Nododd staff fod cyfarwyddyd geirfa eglur yn hanfodol i lwyddiant eu gwaith llafaredd, er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion ystod ddigonol o eirfa i ymgysylltu'n effeithiol â chwricwlwm yr ysgol. O ganlyniad, caiff disgyblion ar draws yr ysgol eu cefnogi'n well i fynegi eu syniadau'n glir a datblygu eu meddwl eu hunain yn fwyfwy hyderus.

Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn ymgorffori cyfleoedd defnyddiol i staff wella eu dealltwriaeth o ymchwil addysgol yn ystod eu gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Mae ychydig o'r staff y siaradom â nhw wedi cymryd rhan yn y 'Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol' (PYPC) sydd, mewn ychydig o achosion, wedi effeithio'n

uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu. Mae ysgolion eraill wedi sefydlu eu dull eu hunain o ddysgu yn seiliedig ar ymholi wedi'i lywio gan ymchwil.

### Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban – Grwpiau Dysgu Strategol

Mae Grwpiau Dysgu Strategol (GDSau) yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban yn darparu dull dysgu proffesiynol strwythuredig, wedi'i lywio gan ymchwil, sy'n galluogi staff i archwilio, treialu a rhannu strategaethau addysgu wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae pob GDS yn canolbwyntio ar faes addysgegol penodol, gydag athrawon yn cynnal prosiectau ymchwil weithredu ar raddfa fach i werthuso effeithiolrwydd dulliau gwahanol. Yna, caiff canfyddiadau eu rhannu ar ffurf marchnad, gan ganiatáu i bob aelod staff ymgysylltu â strategaethau llwyddiannus a'u cymhwyso yn eu haddysgu eu hunain. Mae'r model cydweithredol hwn yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn fyfyriol, wedi'i lywio gan ymchwil ac yn ymarferol berthnasol, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus ac arloesi.

Yn aml, mae ysgolion yn elwa ar gysylltiadau proffesiynol cryf â phrifysgolion trwy eu cyfranogiad mewn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Ar eu gorau, mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu medrau mentora a hyfforddi, ynghyd â'u dealltwriaeth o sut y gall ymchwil 'agos at ymarfer' wella addysgu.

### Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Caerdydd – Rôl Hyrwyddwyr Ymchwil

Mae Partneriaeth AGA Caerdydd, trwy gydweithio â Phrifysgol Rhydychen, wedi cyflwyno Hyrwyddwyr Ymchwil yn ei hysgolion arweiniol i helpu i bontio'r bwlch rhwng ymchwil addysgol ac arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r Hyrwyddwyr Ymchwil hyn yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant â'u prosiectau ymchwil yn yr ysgol ac yn annog cyfranogiad ehangach gan staff mewn defnyddio ymchwil i wella addysgu. Mae'r dull hwn wedi helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall yn well sut i wella addysgu a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth go iawn ac wedi dylanwadu ar benderfyniadau ysgolion. Mae'r bartneriaeth yn rhannu'r gwaith hwn trwy grynodebau gweledol syml, digwyddiadau a chynnwys ar-lein i ledaenu syniadau da ar draws ysgolion. O ganlyniad, mae athrawon dan hyfforddiant yn dangos dealltwriaeth gliriach o wella addysgu a lles, ac mae staff ysgolion yn elwa ar ddatblygu eu medrau ymchwil eu hunain. Mewn rhai achosion, mae ymchwil myfyrwyr wedi llywio penderfyniadau ysgolion, fel gwella dysgu awyr agored ar sail tystiolaeth o astudiaeth lles.

Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd dysgu proffesiynol wedi'i seilio ar ymchwil ac yn ymarferol, gan helpu athrawon i ddeall sut i gymhwyso'r wybodaeth hon yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ysgolion llwyddiannus yn sicrhau bod arferion addysgu wedi'u llywio gan ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws adrannau a'r ysgol. Fodd bynnag, pan fydd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio gormod ar theori heb ei gymhwyso'n ymarferol,

mae'n aml yn arwain at ddatgysylltiad rhwng ymchwil ac arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr addysgu mwyaf effeithiol a welom yn dangos cydbwysedd meddylgar rhwng ymchwil a chymhwyso'n ymarferol, gan sicrhau bod arweinwyr a staff yn integreiddio'r elfennau hyn yn effeithiol.

### Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant – Ymchwil i Ymarfer

Yn dilyn arolygiad gan Estyn ym mis Hydref 2018, rhoddwyd Ysgol Pedr Sant yn y categori mesurau arbennig. Nododd yr adroddiad arolygu sawl maes i'w gwella, gan gynnwys argymhelliad i gryfhau ansawdd addysgu ac asesu ar draws yr ysgol.

Pan ymunodd y pennaeth presennol â'r ysgol yn 2020, gweithiodd ochr yn ochr â'r staff i bennu ffocws di-baid ar addysgu o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi llwyddo i drosi ymchwil addysgol yn strategaethau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth, gan sicrhau bod staff nid yn unig yn deall egwyddorion addysgegol allweddol, ond hefyd yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae diwylliant sy'n cael ei lywio gan ymchwil yn sail i bob agwedd ar addysgu a dysgu, gyda sesiynau dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar archwilio pam y mae strategaethau penodol yn gweithio cyn i athrawon eu rhoi ar brawf yn eu hystafelloedd dosbarth.

Mae dull strwythuredig o ddatblygu proffesiynol yn sicrhau y caiff technegau newydd eu modelu, eu hymarfer a'u mireinio trwy anogaeth a thrafodaethau cydweithredol. Mae staff yn cymryd rhan mewn triawdau, arsylwi gwersi ac anogaeth rhwng cymheiriaid i rannu arfer orau a datrys heriau. Bu'r broses hon yn arbennig o effeithiol o ran ymwreiddio strategaethau addysgu sy'n cael effaith sylweddol, fel holi effeithiol, 'cynllunio ar gyfer gwallau' a meithrin disgwyliadau uchel gan ddisgyblion i ddangos tystiolaeth o'u dealltwriaeth. Datblygwyd y technegau hyn yn ofalus dros gyfnod a rhoddwyd cyfle iddynt ymwreiddio a chael eu meistroli gan athrawon ac, o ganlyniad, maent wedi arwain at ddisgyblion mwy ymgysylltiedig a huawdl.

Mae athrawon hefyd yn cymhwyso egwyddorion gwyddor gwybyddiaeth, fel ymarfer adalw a dysgu ysbeidiol i ddylunio eu cwricwlwm, ac mae data asesu ac adborth gan ddisgyblion yn llywio rhagor o fireinio i strategaethau addysgu, gan sicrhau bod dysgu'n ymatebol ac yn hyblyg.

Trwy sicrhau bod theori yn cyd-fynd â chymhwyso'n ymarferol, mae Ysgol Sant Pedr wedi meithrin diwylliant proffesiynol lle mae ymchwil nid yn unig yn cael ei deall, ond yn fyw yn yr ystafell ddosbarth, gan arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion a mwy o hyder gan athrawon yn eu haddysgeg.

*"Erbyn hyn, mae gennym ni ddiwylliant agored ar draws yr ysgolion ac, er mai agwedd angenrheidiol yw bod rhaid iddo fod yn seiliedig ar ymchwil, rydym yn cael ein hannog i*

*edrych ar bethau â llygad beirniadol a dod o hyd i'n ffordd ein hunain… fi fy hun ydw i o hyd fel athro."*
*(Athro dosbarth)*

Roedd lleiafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw wedi nodi'r angen am ddulliau mwy penodol i bynciau i wella addysgeg er mwyn sicrhau bod addysgu yn effeithiol, yn enwedig wrth feithrin medrau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Yn yr achosion hyn, roedd staff yn aml yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol wedi'i dargedu, fel gwella ansawdd addysgu mathemateg neu ysgrifennu, wedi'i gefnogi gan fentora gan arbenigwyr allanol, fel partneriaid gwella ysgolion o'r consortwm rhanbarthol.

Roedd y datblygiad proffesiynol hwn yn aml yn canolbwyntio ar sut gellid cymhwyso strategaethau addysgu effeithiol, fel modelu ac arfer dan arweiniad, o 'safbwynt pwnc penodol', gan helpu staff i gymhwyso'r dulliau hyn yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Penarlâg yn datblygu sesiynau addysgeg adrannol, sy'n cynnig amser strwythuredig i dimau pwnc fireinio strategaethau addysgu sydd wedi'u teilwra i orchmynion eu disgyblaeth. Yn yr ysgolion hyn, crybwyllodd arweinwyr a staff fod ansawdd yr addysg mewn meysydd allweddol o'r cwricwlwm wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, nododd staff hefyd ei bod weithiau'n anodd manteisio ar gymorth effeithiol ar gyfer pynciau penodol gan asiantaethau allanol, oni bai bod yr ysgol eisoes wedi'i rhoi mewn 'categori Estyn'. Ar ben hynny, mae weithiau'n ofynnol i athrawon ysgolion uwchradd addysgu y tu allan i'w maes arbenigedd, hyd yn oed pan fydd ganddynt wybodaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig o addysgeg sy'n benodol i'r pwnc.

Mae'r cymorth parhaus hwn hyd yn oed yn bwysicach o ystyried, mewn rhai achosion yn y partneriaethau AGA a arolygwyd, nad yw athrawon dan hyfforddiant yn cael digon o gyfleoedd yn ystod eu rhaglenni i ddatblygu eu haddysgegau ar gyfer pynciau a chyfnodau penodol (Estyn, 2022c). Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhaglenni TAR, lle mae amser yn brin. Mewn ychydig o achosion, nid yw partneriaethau AGA wedi cynllunio'n ddigon da i integreiddio elfennau ysgol a phrifysgol y rhaglen er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r ffyrdd gwahanol y mae disgyblion yn dysgu mewn meysydd pwnc gwahanol yn effeithiol.

### Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt – Dysgu Proffesiynol Cynaledig sy'n Creu Effaith

Caiff addysgu o ansawdd uchel yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt ei lywio gan ddysgu proffesiynol cynaledig, penodol i'r pwnc sydd wedi'i ymwreiddio'n gadarn yn niwylliant a chynllunio strategol yr ysgol. Mae cynllun dysgu proffesiynol wedi'i strwythuro'n ofalus yn sicrhau bod yr holl staff yn cymryd rhan mewn datblygiad pwnc ystyrlon, sy'n cyd-fynd yn agos â phrosesau cadarn ar gyfer hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad.

Nid yw dysgu proffesiynol yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad untro ond yn broses fyfyriol, barhaus. Mae'n cryfhau gwybodaeth bynciol ac addysgeg athrawon, er enghraifft trwy ganolbwyntio ar ddatblygu geirfa a gwella llafaredd ar draws y cwricwlwm. Mae hefyd wedi hogi technegau holi athrawon, gan eu galluogi i wirio dealltwriaeth ac ymestyn meddwl disgyblion mewn cyd-destunau pwnc. Mae arsylwi cymheiriaid, cynllunio ar y cyd a chydweithio adrannol yn cefnogi cysondeb a mireinio ymhellach ar draws meysydd pwnc.

Mae timau pwnc yn chwarae rôl ganolog mewn gwella dysgu disgyblaethol a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol. Mae dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a phartneriaethau ag asiantaethau allanol—fel hyfforddiant medrau creadigol—wedi rhoi hwb i hyder, gwydnwch a meddwl creadigol disgyblion ar draws pynciau.

Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar bynciau, yn sbarduno gwelliant ar lefelau unigol, adrannol ac ysgol gyfan. Mae'n meithrin disgwyliadau uchel, cyd-barch a chwilfrydedd academaidd—gan greu ystafelloedd dosbarth sy'n croesawu her, lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a lle mae disgyblion yn credu o ddifrif bod hi'n 'wych i wneud yn dda'.

## Cydweithio

Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw wedi datblygu rhwydweithiau staff effeithiol yn eu lleoliadau eu hunain, gan annog cydweithio i wella ansawdd yr addysgu. Yn aml, roedd y rhwydweithiau hyn yn cynnig cyfleoedd i athrawon rannu eu hymchwil eu harfer orau eu hunain.

### Ysgol Gynradd y Bont-faen – Gwella Addysgu trwy Effeithiolrwydd Cyfunol Athrawon

Yn Ysgol y Bont-faen, mae effeithiolrwydd cyfunol athrawon yn un o gonglfeini diwylliant dysgu proffesiynol yr ysgol, gan arwain at welliannau ystyrlon i addysgu a dysgu. Mae arweinwyr wedi ymwreiddio dull strwythuredig lle mae staff yn cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol, cydweithio â chymheiriaid ac arfer fyfyriol i sicrhau addysgeg gyson, o ansawdd uchel ar draws yr ysgol.

Enghraifft allweddol o hyn yw defnydd yr ysgol o grwpiau ymholi proffesiynol, lle mae'r holl staff yn gweithio mewn timau bach i archwilio a threialu strategaethau addysgu newydd. Er enghraifft, arweiniodd ymchwil ar holi effeithiol ar ffocws ysgol gyfan ar fireinio rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion. Erbyn hyn, mae athrawon yn herio disgyblion i ehangu eu hymatebion, gan wella eu gallu i fynegi ymresymiad, yn enwedig mewn llythrennedd a mathemateg. Yn yr un modd, mae datblygiad yr ysgol o 'Fatiau Addysgu',

sy'n crynhoi egwyddorion addysgegol allweddol, wedi darparu cyfeirbwynt cytûn, gan sicrhau cysondeb ar draws ystafelloedd dosbarth.

O ganlyniad, roedd yr ysgolion hyn yn dechrau datblygu model dysgu proffesiynol sy'n llai 'o'r brig i lawr', gan annog mwy o ymgysylltiad a chydberchnogaeth rhwng staff ac arweinwyr. Er enghraifft, mae Ysgol Greenhill yn Sir Benfro wedi rhoi sesiynau *'Monday Mastery'* ar waith i ddarparu lle pwrpasol i staff nodi, trafod a rhannu arferion addysgu gorau. Fodd bynnag, mae rhai staff mewn ysgolion uwchradd yn crybwyll bod amser cyfyngedig ar gyfer cydweithio trawsadrannol yn aml yn lleihau cyfleoedd i athrawon ddysgu oddi wrth ei gilydd sydd, yn ei dro, yn golygu bod datblygiad proffesiynol yn llai effeithiol.

"When a team of educators shares the belief that through their collective action, they can positively influence student outcomes, it has an immense impact on student learning." *(Hattie, 2018, 10 Mindframes for Visible Learning)*

Roedd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw yn cryfhau eu cysylltiadau â chydweithwyr yn y clwstwr, gyda'r cydweithio mwyaf effeithiol yn canolbwyntio ar rannu arferion gorau a datblygu dulliau addysgu ar y cyd. Mewn ychydig o achosion, roedd ysgolion yn cydweithio ar fentrau penodol. Er enghraifft, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi dechrau cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill i nodi nodweddion allweddol addysgu mathemateg effeithiol. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o ysgolion nad oedd cydweithio ar draws ysgolion, gan gynnwys gwaith clwstwr, wedi'i sefydlu'n dda hyd yn hyn. Mae gweithio â chydweithwyr y tu hwnt i'w hysgol eu hunain yn aml yn mynnu amser ac weithiau nid oes ganddo'r strwythur angenrheidiol i sicrhau fod ganddo ffocws a'i fod yn gynaledig ac yn cael effaith ystyrlon ar ddatblygiad proffesiynol athrawon.

"Roedd yn braf gweld darlithwyr profiadol iawn yn cyfaddef camgymeriadau yn eu haddysgu, yn myfyrio'n agored ac yn bod yn hunanfeirniadol o'n blaenau. Roedd yn galonogol iawn i mi nad oes gwers berffaith, ond yr hyn sy'n bwysig yw didwylledd a pharodrwydd i fyfyrio a gweithredu ar hyn." *(Athro dan Hyfforddiant, partneriaeth Abertawe)*

Er ei bod yn anodd sefydlu cydweithio tebyg ar draws ysgolion o hyd, gellir gosod y sylfeini ar gyfer deialog broffesiynol effeithiol ac arfer fyfyriol yn gynharach o lawer. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr AGA yn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn ymuno â'r proffesiwn wedi'u harfogi â'r medrau i fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer eu hunain ac ymgysylltu'n ystyrlon ag arfer pobl eraill. Mewn lleiafrif o'r darparwyr rydym wedi'u harolygu, mae athrawon dan hyfforddiant yn elwa ar gyfleoedd strwythuredig i fyfyrio sy'n eu galluogi i gydweithio â chymheiriaid, mentoriaid yn yr ysgol a thiwtoriaid yn y brifysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'r hyder i ddadansoddi eu penderfyniadau addysgu yn gysylltiedig â chynnydd disgyblion.

**Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe – Datblygu ymarferwyr myfyriol sy'n cael eu llywio gan ymchwil**

Yn 2022, creodd arweinwyr ym Mhartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe ddwy ystafell ddosbarth arsylwi bwrpasol i gefnogi eu gweledigaeth i ddatblygu ymarferwyr myfyriol sy'n cael eu llywio gan ymchwil. Mae'r mannau arbenigol hyn yn chwarae rôl ganolog yn y rhaglen TAR cynradd.

Mae addysgwyr athrawon yn defnyddio'r ystafelloedd dosbarth i fodelu dulliau addysgegol allweddol, fel defnyddio adrodd storïau i wella cyfathrebu neu gynnal ymchwiliadau gwyddonol ymarferol i hybu ymholi. Yn aml, caiff sesiynau eu recordio ar fideo, sy'n caniatáu eu hadolygu'n fanwl. Mae addysgwyr yn darparu trosleisiau hunanfeirniadol i esbonio eu dewisiadau, gan helpu athrawon dan hyfforddiant i ddeall gwerth theori, gwybodaeth flaenorol a myfyrio wrth weithredu.

Mae athrawon dan hyfforddiant hefyd yn gweithio mewn grwpiau bach i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso micro-wersi â disgyblion cynradd sy'n ymweld. Mae'r sesiynau hyn yn magu hyder cyn lleoliadau ac yn hybu myfyrio cydweithredol ar strategaethau addysgu gwahanol, ymgysylltiad dysgwyr a rheoli'r ystafell ddosbarth.

Mae'r ystafelloedd dosbarth hefyd yn safle i ddatblygu medrau ymchwil. Mae athrawon dan hyfforddiant yn arsylwi rhyngweithio rhwng oedolion a phlant, yn olrhain amlder ymatebion disgyblion ac yn dechrau myfyrio ar eu rhagdybiaethau a'u rhagfarnau addysgu eu hunain—sy'n aml yn arwain at ymholi hunangyfeiriedig pellach.

Yn olaf, mae'r mannau arsylwi o fudd i'r tîm addysgu ehangach. Mae arsylwadau ar y cyd a thrafodaethau â ffocws ar ôl gwersi, er enghraifft ynghylch addysgu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn cefnogi deialog broffesiynol ac yn codi ansawdd addysgu ar draws y rhaglen. Mae tiwtoriaid prifysgol newydd hefyd yn crybwyll profiadau ymsefydlu cyfoethocach a mwy o hyder wrth arwain dysgu oedolion.

"I mi, y pwyslais ar effaith addysgu oedd y brif neges o'r sesiynau arsylwi. Dwi'n credu bod angen i mi ganolbwyntio mwy ar yr hyn y mae plant yn ei ddysgu, yr hyn y maent yn ei chael yn anodd a sut dwi'n gwybod hyn. Asesu wrth ddysgu!" *(Athro dan hyfforddiant)*

Mae gan lawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw gysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol sy'n eu cefnogi â dysgu proffesiynol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â phrifysgolion lleol, ysgolion partner a darparwyr preifat. Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw o'r farn eu bod wedi cael cymorth defnyddiol gan gonsortia ac awdurdodau lleol, yn enwedig pan roedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu. Roedd trafodaethau â chynrychiolwyr o gonsortia ac awdurdodau lleol yn dangos y bu pwyslais newydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar ddulliau addysgu o

ansawdd uchel, wedi'u llywio gan ymchwil, ochr yn ochr â rôl arweinyddiaeth ar gyfer datblygu addysgu. Soniodd staff yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw am rôl gadarnhaol partneriaid gwella ysgolion hefyd o ran gwella cydweithio rhwng ysgolion trwy nodi a rhannu arfer dda. Mewn ychydig o achosion, nododd arweinwyr ac athrawon yr amrywioldeb mewn cymorth ar gyfer pynciau penodol a mynegi pryderon ynghylch argaeledd gwasanaethau yn y dyfodol oherwydd cyllid a newidiadau strwythurol.

Roedd ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn elwa ar gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir trwy adnoddau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, roeddent wedi manteisio ar fodiwlau hyfforddiant ar-lein, wedi cymryd rhan yn y Prosiect Ymholi Cenedlaethol neu wedi ymuno â sgyrsiau rhwydwaith cenedlaethol i drafod dulliau addysgu a dysgu. Er bod y cyfleoedd hyn yn galluogi staff i rannu syniadau a datblygu eu meddylfryd ynghylch addysgu effeithiol, crybwyllodd staff ac arweinwyr fod cyfyngiadau amser ac ariannol yn heriau sylweddol. Nodont hefyd yr angen am ddysgu proffesiynol mwy effeithlon sy'n trosi'n glir yn ddeilliannau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth.

## Hunanwerthuso

Ym mis Rhagfyr 2024, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei arweiniad ar gyfer gwella ysgolion a hunanwerthuso (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae'r ddogfen hon yn nodi'n glir yr angen i hunanwerthuso roi blaenoriaeth i gynnydd 'yr holl ddysgwyr a'r systemau sy'n eu cefnogi'. Mae'n awgrymu, er mwyn sicrhau gwelliant, y dylai ysgolion:

> *'ddefnyddio'r amrywiaeth ehangaf a chyfoethocaf posibl o dystiolaeth sydd ar gael i lywio eu gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn eu cyd-destun eu hunain, gan gadw ffocws parhaus ar gynnydd dysgwyr'.*

Mae'n cyfeirio ymarferwyr at ddogfen bellach, sef 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu', sy'n rhoi rhagor o gyngor i ysgolion ar sut i fynegi cynnydd ar gyfer eu disgyblion, a all wedyn fwydo'n uniongyrchol i brosesau hunanwerthuso'r ysgol. Ar ben hynny, cyhoeddodd 'Yr adnodd gwerthuso a gwella (NR:EI)' yn 2022 i ddarparu canllaw ymarferol i ysgolion i gefnogi eu hunanwerthuso.

Er gwaethaf argaeledd yr adnoddau hyn, mae eu heffaith ar y system addysg yn gyfyngedig o hyd ac mae canfyddiadau arolygu wedi nodi gwendidau ym mhrosesau hunanwerthuso ysgolion yn gyson. Yn ystod cylch arolygu 2023-2024, cafodd tua 18%[1] o ysgolion cynradd argymhelliad i wella effeithiolrwydd hunanwerthuso, yn aml â phwyslais penodol ar finiogi'r ffocws ar ansawdd yr addysgu a'i **effaith ar ddysgu** (Estyn, 2025). Mewn ysgolion uwchradd, roedd y ffigur hwn yn sylweddol uwch, gyda 68% ohonynt yn cael argymhelliad tebyg. O'r rhain, cynghorwyd tua hanner ohonynt i ganolbwyntio'n benodol ar wella addysgu a deall ei **effaith ar gynnydd disgyblion** (Estyn, 2025)[2].

Un canfyddiad cyffredinol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol ledled Cymru oedd y 'ffocws diwyro ar wella ansawdd yr addysgu fel elfen sylfaenol i helpu athrawon i ddeall sut i ddatblygu a chyflwyno eu cwricwlwm yn effeithiol' (Estyn 2025).

Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn rhoi gwerth uchel ar addysgu fel y prif ysgogydd ar gyfer cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw prosesau hunanwerthuso'n egluro'r cysylltiad rhwng addysgu o ansawdd uchel a'i effaith ar ddysgu. Gall cynllunio gwelliant gael ei lywio'n ormodol gan dasgau a chael ei lethu gan gynnwys, yn hytrach na'i ddefnyddio fel offeryn strategol i feithrin diwylliant o ddeialog broffesiynol. Yn yr ysgolion gorau, mae arweinwyr yn sicrhau bod sgyrsiau proffesiynol rheolaidd, wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn digwydd ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r trafodaethau

[1] Tud 7 - Trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau - Cynradd
[2] Tud 8 – Trosolwg o argymhellion – Uwchradd

hyn yn canolbwyntio'n fanwl ar addysgeg ac yn ganolog i ddealltwriaeth gyffredin o sut mae addysgu'n dylanwadu ar gynnydd disgyblion.

Ym mhennod gyntaf yr adroddiad hwn, amlygom sut roedd llawer o'r ysgolion mwyaf effeithiol yr ymwelom â nhw wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysg effeithiol ar draws yr ysgol gyfan ac o fewn adrannau. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn aml yn rhoi blaenoriaeth i brosesau hunanwerthuso i atgyfnerthu'r elfennau allweddol hyn o addysgu. Roeddent yn creu cyfleoedd rheolaidd a ffocysedig i arweinwyr ac athrawon fyfyrio ar eu harfer a chryfhau ei heffaith ar ddysgu.

Yn nodweddiadol, roedd arweinwyr a staff yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar addysgu a oedd wedi'i hymwreiddio'n dda yn ethos addysgu'r ysgol. Yn bwysig, roedd eu gwerthusiad yn ymestyn y tu hwnt i wirio gweithredu; roedd yn canolbwyntio ar ba mor gyson ac effeithiol roedd yr elfen hon yn cael ei chymhwyso mewn ystafelloedd dosbarth ac, yn hollbwysig, yr effaith amlwg yr oedd yn ei chael ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

### Ysgol Idris Davies 3-18 – Gwerthuso Gweledigaeth ar gyfer Addysgu

Mae arweinwyr yn Ysgol Idris Davies wedi sefydlu dull hunanwerthuso clir a phwrpasol, sydd wedi'i wreiddio yn eu gweledigaeth, sef *"inspiring, engaging, motivational practitioners guiding students towards a love of learning."* Maent wedi sicrhau bod eu prosesau hunanwerthuso—fel arsylwi gwersi—yn cyd-fynd â chyfres o ddulliau addysgu cytûn sy'n cael eu disgwyl ar draws yr ysgol. Mae'r aliniad hwn yn helpu arweinwyr a staff i ganolbwyntio ar yr elfennau o addysgu sydd â'r potensial mwyaf i wella deilliannau dysgu.

Er enghraifft, maent yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae holi yn dyfnhau dysgu disgyblion ac yn nodi meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, fel yr angen i gynllunio amcanion dysgu clir sy'n sicrhau rhediad a her briodol. Mae cyfleoedd rheolaidd i staff gymryd rhan mewn deialog broffesiynol gydag arweinwyr wedi'u cynnwys yn y cylch hunanwerthuso. Mae'r trafodaethau hyn yn llywio cynlluniau gweithredu unigol, sydd wedi'u cysylltu ag Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol ac yn tynnu sylw at feysydd addysgu y mae angen eu gwella.

Caiff athrawon eu cefnogi ymhellach trwy fodel cymorth gan gymheiriaid. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd ar feysydd wedi'u targedu ar gyfer gwella, rhannu arfer effeithiol, arsylwi gwersi ar y cyd a chynnal trafodaethau proffesiynol rheolaidd sy'n canolbwyntio ar effaith strategaethau addysgu ar gynnydd disgyblion.

"the most effective teachers are five times more effective than the least effective….it it is hard to envisage any effective way of improving the quality of educational outcomes for young people that does not involve a sustained effort to improve the quality of teaching" *(Wiliam, 2016, t.35)*

Fodd bynnag, lle'r oedd hunanwerthuso addysgu yn llai effeithiol, roedd arweinwyr yn aml yn canolbwyntio gormod ar arsylwi gwersi unigol a oedd yn rhoi blaenoriaeth i gydymffurfio â strategaethau penodol, yn hytrach na gwerthuso eu heffaith ar addysgu. Mewn rhai achosion, roedd arweinwyr yn seilio eu barn ar safbwyntiau cul ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag addysgu da, heb ystyried yn llawn sut mae'r dulliau hyn yn effeithio ar gynnydd disgyblion. Roedd hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pryd a sut y dylid cymhwyso strategaethau orau i gyd-destunau ystafell ddosbarth gwahanol. O ganlyniad, nid oedd athrawon yn gallu myfyrio'n ystyrlon ar effaith eu harfer gystal. Mewn ychydig o achosion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, roedd athrawon yn disgrifio hunanwerthuso fel ymarfer ticio blwch, o'r brig i lawr, lle mae adborth yn rhy feirniadol yn hytrach nag yn ddatblygiadol.

Mewn cyferbyniad, roedd yr ysgolion mwyaf effeithiol yn meithrin diwylliant o hunanwerthuso parhaus, myfyriol a oedd yn cynnwys yr holl staff. Roedd arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn hybu deialog broffesiynol, cydweithio rhwng cymheiriaid ac ymrwymiad cytûn i wella ansawdd dysgu. Cryfder penodol mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw oedd defnyddio arsylwi a chefnogi cymheiriaid 'heb lawer yn y fantol', a oedd yn cysylltu'n agos ag elfennau penodol o addysgu.

When teachers have structured opportunities to explore the nitty-gritty challenges of their practice through thoughtful exchanges with colleagues and in relation to relevant research, they rediscover the passion for learning and their own personal and professional growth that brought them into teaching in the first place.
*(Hargreaves & Shirley, 2009, The Fourth Way)*

Roedd y cyfleoedd hyn yn annog ymarferwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon a myfyriol ynghylch dysgu disgyblion, gan eu helpu i gymryd perchnogaeth o'u datblygiad proffesiynol. Yn yr achosion hyn, roedd athrawon yn teimlo bod ganddynt ryddid o hyd i addasu eu harfer mewn ffyrdd a oedd yn ymatebol i gyd-destunau eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. Er bod ffocws addysgu penodol yn aml yn cael ei bennu gan arweinwyr, fel defnyddio seibiannau yn effeithiol i fynd i'r afael â chamsyniadau, roedd y pwyslais ar hunanwerthuso a dysgu proffesiynol cydweithredol. O ganlyniad, roedd athrawon yn aml yn teimlo bod yr amgylcheddau cefnogol hyn, sydd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth, yn arwain at sgyrsiau proffesiynol mwy diffuant rhwng cydweithwyr, gan ganolbwyntio ar effaith addysgu ar ddysgu disgyblion yn hytrach na chydymffurfio ac ufuddhau.

### Ysgol Gynradd Bwlchgwyn – Cryfhau addysgu trwy gydweithio rhwng cymheiriaid ac arfer fyfyriol

Ym Mwlchgwyn, mae cydweithio rhwng cymheiriaid wrth wraidd gwella addysgu a chryfhau hunanwerthuso. Mae staff yn arsylwi gwersi'n rheolaidd ac yn rhoi adborth i'w cymheiriaid, gan ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i drafod strategaethau effeithiol a nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r model cydweithredol hwn wedi helpu i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chwilfrydedd proffesiynol, lle mae athrawon yn cynorthwyo ei gilydd i fireinio eu harfer.

Mae arweinwyr yn hybu dysgu proffesiynol wedi'i seilio ar ymholi, gan annog staff i fyfyrio'n feirniadol ar ddiben ac effaith eu haddysgu. Mae staff yn cofnodi ymchwil weithredu mewn ffolderi dysgu proffesiynol, sy'n adnodd gwerthfawr ar gyfer rhannu arfer effeithiol a hybu cysondeb.

Mae cysylltiad agos rhwng deialog rhwng cymheiriaid a gwella. Er enghraifft, ar ôl hyfforddiant ar asesu ffurfiannol, addasodd athrawon dechnegau holi ar y cyd i ennyn diddordeb disgyblion yn well a chefnogi dilyniant. Mae teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a llais y dysgwr yn llywio'r broses fyfyriol hon ymhellach.

Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau nad yw gweithio â chymheiriaid yn weithgaredd ynysig, ond yn sbardun allweddol yn niwylliant gwella'r ysgol. Mae myfyrio gan staff yn bwrpasol ac wedi'i seilio ar brofiad go iawn yn yr ystafell ddosbarth, gan arwain at welliannau cynaledig yn ansawdd yr addysgu a phrosesau hunanwerthuso ehangach yr ysgol.

Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr yn creu cyfleoedd yn rheolaidd i staff werthuso effaith addysgu mewn cyfarfodydd staff neu adrannol wythnosol. Roedd yr arfer reolaidd hon yn helpu i ymwreiddio hunanfyfyrio yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol ac mae'n cyfrannu at ddiwylliant agored, sy'n canolbwyntio ar wella. Roedd yn galluogi staff i nodi'n gyflym pan nad oedd strategaethau'n cael yr effaith ddymunol a gwneud addasiadau amserol a gwybodus. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Dewstow, cyflwynodd staff dull a oedd â'r nod o feithrin mwy o annibyniaeth ymhlith disgyblion, ond cydnabuwyd yn gyflym iawn nad oedd yn cael yr effaith fwriadedig. Trwy drafodaeth fyfyriol, fe wnaethant addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn fwy hylaw ac yn cyd-fynd yn bwrpasol â'r medrau a'r wybodaeth benodol yr oeddent am i ddisgyblion eu datblygu.

Cognitive psychology research suggests that when we are presented with a problem, we are more likely to explore options that involve adding new activities and less likely to consider the converse, that by subtracting we might achieve more. *(Hamilton, Hattie, & Wiliam, 2023, t. 29)*

Yn ogystal, lle'r oedd ysgolion yn darparu cyfleoedd rheolaidd i staff fyfyrio ar addysgu, roedd hyn yn helpu i greu diwylliant o chwilfrydedd proffesiynol ac yn annog staff i achub ar gyfleoedd i wella eu dulliau addysgu cyfredol wrth iddynt godi.

### Ysgol Gynradd Penclawdd – Ymwreiddio chwilfrydedd proffesiynol

Yn Ysgol Gynradd Penclawdd, caiff staff eu hannog i holi, archwilio ac arloesi trwy gyfarfodydd dysgu proffesiynol strwythuredig, mentora cymheiriaid ac ymholi wedi'i lywio gan ymchwil. Mae'r diwylliant hwn o chwilfrydedd yn grymuso athrawon i fireinio eu harfer yn barhaus er mwyn ymateb i dystiolaeth ac anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Er enghraifft, i wella datblygiad iaith a darllen disgyblion, mae staff wedi treialu a gwerthuso ystod o strategaethau, gan gynnwys ymyriadau ffoneg targedig, amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran geirfa a defnyddio waliau gwaith i gefnogi dilyniant.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant o chwilfrydedd proffesiynol trwy rymuso athrawon i ymateb i'r anghenion y maent yn eu nodi trwy eu gwerthusiad eu hunain o ddysgwyr yn eu dosbarthiadau. Er enghraifft, mynegodd athrawon disgyblion iau bryderon ynghylch agweddau ar ddatblygiad corfforol. Er mwyn ymateb i hyn, cyflwynodd yr ysgol sesiynau llythrennedd corfforol aml-orsaf i fynd i'r afael â'r angen hwn. Mae'r sesiynau hyn nid yn unig yn cynorthwyo i ddatblygu medrau corfforol, ond hefyd yn hybu dysgu rhwng cyfoedion, wrth i ddysgwyr hŷn fentora rhai iau i ddatblygu'r medrau hyn.

Mae staff ar draws yr ysgol yn cymryd rhan yn weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol, prosiectau ymchwil a chydweithio yn y clwstwr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y meddylfryd addysgu cyfredol. Er enghraifft, maent yn rhannu deilliannau eu Prosiectau Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) â chydweithwyr ar draws y clwstwr, gan sicrhau bod hunanwerthuso a gwelliannau i addysgu yn parhau i fod yn berthnasol, wedi'u llywio gan dystiolaeth a'u bod yn ymatebol i anghenion esblygol disgyblion.

Crybwyllodd llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw fod ymgysylltu ag asiantaethau allanol, fel consortia rhanbarthol, ymgynghorwyr awdurdodau lleol ac ysgolion partner, yn aml yn ychwanegu gwerth sylweddol at eu prosesau hunanwerthuso. Yn yr achosion gorau, roedd y cydweithio hwn yn eu galluogi i fanteisio ar arbenigedd ehangach, yn cynnig her adeiladol ac yn cynorthwyo i ddatblygu gwelliannau wedi'u seilio ar dystiolaeth. Fodd bynnag, er bod ysgolion, consortia ac awdurdodau lleol yn cydnabod y manteision, roeddent hefyd yn nodi y gall ymgysylltu â nifer o bartneriaid allanol fod yn anodd ei reoli'n effeithiol oherwydd cyfyngiadau amser a chyllidebol. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd staff yn teimlo y gall mewnbwn ychwanegol o ffynonellau allanol ychwanegu pwysau sylweddol a lleihau effeithiolrwydd hunanwerthuso. Crybwyllont, pan nad yw adborth gan asiantaethau lluosog yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith addysgu

ar ddysgu disgyblion neu flaenoriaethau penodol yr ysgol, y gall ddod yn llafurus, yn feichus ac arwain at negeseuon cymysg. Lle'r roedd cymorth allanol, gan gynnwys gan gonsortia rhanbarthol, yn fwyaf effeithiol, roedd yn canolbwyntio ar gryfhau prosesau hunanwerthuso sy'n gysylltiedig ag agweddau penodol, fel llythrennedd a rhifedd, ac yn cyd-fynd yn agos â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan yr ysgol.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, defnyddiwyd adolygiadau datblygu perfformiad (ADPau) yn offeryn gwerthfawr i gefnogi hunanwerthuso ac ysgogi gwelliant. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod y broses yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau ysgol gyfan ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i staff fyfyrio ar eu harfer unigol eu hunain. Roedd amcanion wedi'u ffocysu'n dda ac yn cyd-fynd ag addysgu effeithiol a chynnydd disgyblion ac roeddent yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol ymhellach.

### Ysgol John Bright – Defnyddio cymorth cymheiriaid ac adolygiadau datblygiad proffesiynol i gryfhau arfer fyfyriol

Yn yr ysgol hon, mae cymorth cymheiriaid yn dod yn gonglfaen diwylliant hunanwerthuso effeithiol, heb lawer yn y fantol. Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd agored ac ymddiriedus lle mae staff yn teimlo'n ddiogel yn trafod heriau heb ofn cael eu barnu. Mae deialog anffurfiol ar ôl teithiau dysgu wedi disodli adborth ffurfiol â myfyrio adeiladol, gan annog sgyrsiau gonest a chefnogol.

Er enghraifft, mae staff yn adran y Dyniaethau yn defnyddio'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (ADP) i gymryd rhan mewn myfyrdodau strwythuredig un-i-un ac anogaeth ddewisol. Mae gan athrawon yr ymreolaeth i ddewis eu partneriaid myfyriol, sy'n helpu i feithrin diwylliant cydweithredol yn hytrach na diwylliant sy'n cael ei ysgogi gan gydymffurfio. Mae hyn yn hybu cydbwysedd rhwng blaenoriaethau ysgol gyfan a nodau datblygu unigol, gan sicrhau bod arfer fyfyriol yn arwain at welliannau y gellir eu rhoi ar waith. Mae arweinwyr yn dechrau datblygu platfform ar-lein i gefnogi'r dull hwn ymhellach trwy ddarparu man a rennir i gofnodi deilliannau hunanwerthuso, sy'n bwydo'n uniongyrchol i gynlluniau datblygu'r ysgol ac adrannau.

Mewn ychydig o achosion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, nid oedd targedau rheoli perfformiad athrawon a chynlluniau gwella ysgol gyfan yn canolbwyntio'n ddigon craff ar wella addysgu a'i effaith ar ddysgu disgyblion. Yn yr un modd, roedd fframweithiau hunanwerthuso yn aml yn rhy eang ac nid oedd ganddynt y strwythur sydd ei angen i hybu myfyrio beirniadol. Weithiau, roedd hyn yn arwain at arfer anghyson ar draws adrannau, er enghraifft trwy ddibynnu'n ormodol ar ddata crynodol i farnu cynnydd, yn hytrach na'i ddefnyddio'n ddiagnostig i wella addysgu. O ganlyniad, nid oedd athrawon yn cael digon o arweiniad a chyfleoedd i fyfyrio ar eu heffaith eu hunain a mireinio eu harfer i wneud gwelliannau i ddysgu disgyblion.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol yr ymwelom â nhw, roedd hunanwerthuso'n broses gylchol, sefydledig a oedd yn sail i ddiwylliant cryf o welliant parhaus. Roedd arweinwyr a staff yn cydweithio â'i gilydd i fyfyrio'n feirniadol ar effaith eu harfer, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau sy'n bwydo'n uniongyrchol i ddysgu proffesiynol. Roedd y dull targedig hwn yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol yn berthnasol, yn bwrpasol ac yn cyd-fynd ag anghenion ysgol gyfan ac anghenion unigol. O ganlyniad, roedd dysgu proffesiynol yn arwain at welliannau pendant i ansawdd yr addysgu ac, yn y pen draw, at ddeilliannau gwell i ddisgyblion. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd arfer fyfyriol yn weithgaredd annibynnol, ond yn rhan o gylch parhaus sy'n cysylltu hunanwerthuso, twf proffesiynol ac addysgu o ansawdd uchel.

*"My role, as a teacher, is to evaluate the effect I have on my students. It is to 'know thy impact', it is to understand this impact, and it is to act on this knowing and understanding."*

(Hattie, 2012, t.23)

# Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad thematig hwn yn defnyddio tystiolaeth o'n canfyddiadau arolygu a gweithgarwch dilynol, ynghyd ag ymweliadau â 14 o ysgolion cynradd, 10 ysgol uwchradd ac un ysgol pob oed ledled Cymru. Dewiswyd yr ymweliadau hyn i gynrychioli lledaeniad daearyddol ac economaidd-gymdeithasol eang ac roeddent yn cynnwys lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Cynhaliwyd yr ymweliadau yn nhymor y gwanwyn 2025. Mae'r tabl isod yn rhestru'r ysgolion a'r sefydliadau a gymerodd ran.

Casglwyd tystiolaeth trwy arsylwi addysgu a dysgu, cyfweliadau â phenaethiaid, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, athrawon dosbarth a disgyblion. Edrychodd arolygwyr ar ddogfennau'r ysgolion hefyd, gan gynnwys fframweithiau addysgu, cynlluniau dysgu proffesiynol, mapiau cwricwlwm a samplau o waith disgyblion.

Yn ogystal ag ymweliadau ag ysgolion, casglodd Estyn dystiolaeth o arolygon staff ar-lein a chyfarfodydd â chyrff cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac undebau athrawon. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn i'w weld ar dudalen y cyhoeddiad. Er i ni roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg trwy amrywiaeth o sianeli, roedd y gyfradd ymateb yn isel iawn (37 o ymatebion).

Hoffem ddiolch i'r disgyblion, staff yr ysgolion, swyddogion awdurdodau lleol a staff gwasanaethau cymorth rhanbarthol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn ac yr ymwelwyd neu y cysylltwyd â nhw yn rhan ohono.

| Ysgol | Awdurdod Lleol | Cyfnod |
|---|---|---|
| Ysgol Idris Davies | Caerffili | Pob oed |
| Ysgol Gymunedol Aberdâr | Rhondda Cynon Taf | Uwchradd |
| Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Abertawe | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd Bwlchgwyn | Wrecsam | Cynradd |
| Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Caerdydd | Caerdydd | AGA |
| Ysgol Gynradd Dewstow | Sir Fynwy | Cynradd |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Caerdydd | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd Gellifaelog | Merthyr Tudful | Cynradd |
| Ysgol Uwchradd Penarlâg | Sir y Fflint | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd Priordy Cil-maen | Sir Benfro | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Penclawdd | Abertawe | Cynradd |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban | Torfaen | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd St Andrew | Casnewydd | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Pedr Sant | Caerdydd | Cynradd |
| Ysgol Stanwell | Bro Morgannwg | Uwchradd |
| Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe | Abertawe | AGA |
| Ysgol Greenhill Dinbych-y-pysgod | Sir Benfro | Uwchradd |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Maelor | Wrecsam | Uwchradd |
| Ysgol Gynradd y Bont-Faen | Bro Morgannwg | Cynradd |
| Ysgol Bro Banw | Sir Gâr | Cynradd |
| Ysgol Emmanuel | Sir Ddinbych | Cynradd |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | Sir Gâr | Uwchradd |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Pen-y-bont ar Ogwr | Uwchradd |
| Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr | Powys | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Cymraeg Llwyncelyn | Rhondda Cynon Taf | Cynradd |
| Ysgol Gynradd Llanllechid | Gwynedd | Cynradd |
| Ysgol John Bright | Conwy | Uwchradd |
| Ysgol Parc y Llan | Sir y Fflint | Cynradd |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Actifadu Gwybyddol** | Dull addysgegol sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddwfn, creu cysylltiadau a chymhwyso gwybodaeth trwy ymresymu a datrys problemau |
| **ADP** | Adolygiad Datblygiad Proffesiynol – Proses sy'n cael ei defnyddio mewn ysgolion i gefnogi datblygiad staff a sicrhau bod nodau unigol yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol gyfan |
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol – Term sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru i ddisgrifio dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â'u dysgu oherwydd ystod o anghenion |
| **AGA** | Addysg Gychwynnol Athrawon – Rhaglenni sy'n paratoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer statws athro cymwysedig |
| **ALlau** | Awdurdodau Lleol – Y cyrff llywodraeth rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddarpariaeth addysg yn eu hardal |
| **Asesu Ffurfiannol** | Asesu sy'n cael ei ddefnyddio gan athrawon yn ystod dysgu i gasglu gwybodaeth, rhoi adborth ac addasu addysgu i fodloni anghenion disgyblion |
| **DPP** | Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer staff i wella eu medrau a'u gwybodaeth |
| **Egwyddorion Addysgegol** | Deuddeng egwyddor a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) i arwain addysgu effeithiol dan Gwricwlwm i Gymru |

| | |
|---|---|
| **FfCD** | Fframwaith Cymhwysedd Digidol – Fframwaith sy'n amlinellu'r medrau digidol y disgwylir i ddisgyblion eu datblygu ar draws y cwricwlwm |
| **MDaPh** | Meysydd Dysgu a Phrofiad – Y chwe maes yng Nghwricwlwm i Gymru, sef: Y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| **NSERE** | Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol – Strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau rôl ymchwil mewn addysg |
| **PYPC** | Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol – Menter genedlaethol sy'n cefnogi ymholi ymarferwyr ac ymchwil weithredu mewn ysgolion |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2024) *Recriwtio a Chadw Uwch Arweinwyr Ysgolion yng Nghymru*

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021) *Adroddiad ar Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg yng Nghymru*. Caerdydd: CGA.

Cyngor y Gweithlu Addysg (2024) *Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru*. Caerdydd: CGA.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Education Datalab (2017) *Improving Science Teacher Retention: do National STEM Learning Network professional development courses keep science teachers in the classroom?* Ar gael ar-lein: https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/418071/improving-science-teacher-retention-do-national-stem-learning. (Cyrchwyd 30 Ebrill 2025)

Education Endowment Foundation (2021a) *Special Educational Needs in Mainstream Schools.* Ar gael ar-lein: Special Educational Needs in Mainstream Schools | EEF (Cyrchwyd 30 Ebrill 2025)

Education Endowment Foundation (2021b) *Effective Professional Development*. Ar gael ar-lein: Effective Professional Development | EEF (Cyrchwyd 30 Ebrill 2025)

Education Policy Institute (2020) *The effects of high-quality professional development on teachers and students*. Llundain: Education Policy Institute.

Estyn (2018) *Gwella addysgu: Adroddiad thematig ar arfer effeithiol*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2022a) *Y Cwricwlwm i Gymru: Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2022b) *Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2022c) *Diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru: cryfderau sy'n dod i'r amlwg a meysydd i'w hystyried.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2024a) *Pontio a chynnydd disgyblion*. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2024b) *Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.* Caerdydd: Estyn.

Fullan, M. (2014) *The Principal - Three Keys to Maximizing Impact. 4th edition.* Wiley

Hamilton, A., Hattie, J. and Wiliam, D. (2023) *Making Room for Impact: A De-implementation Guide for Educators*. Thousand Oaks, CA: Corwin Press.

Hargreaves, A. and Fullan, M. (2012) *Professional Capital: Transforming Teaching in Every School*. New York: Teachers College Press.

Hargreaves, A. and Shirley, D. (2009) *The Fourth Way: The inspiring future for educational change*. Thousand Oaks, CA: Corwin Press.

Hattie, J. (2009) *Visible Learning: A synthesis of over 800 meta-analyses relating to achievement*. Llundain: Routledge.

Hattie, J. (2012) *Visible Learning For Teachers* London: Routledge.

Hattie, J. (2018) *10 Mindframes for Visible Learning: Teaching for Success*. Llundain: Routledge.

Lemov, D. (2015) *Teach Like a Champion 2.0: 62 Techniques that Put Students on the Path to College*. San Francisco: Jossey-Bass.

Llywodraeth Cymru (2020) *Y daith i 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) *Yr Adnodd Gwerthuso a Gwella (NR:EI)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023) *Cynllunio'ch Cwricwlwm: Creu cwricwlwm ar gyfer eich ysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024) *Canllawiau gwella ysgolion* – ar-lein – diweddarwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2024

NFER (2015) *Cognitive Activation in Maths*. Slough: National Foundation for Educational Research.

OECD (2018) *The future of education and skills Education 2030.* Paris: OECD Publishing.

OECD (2020) *Achieving the New Curriculum for Wales*. Paris: OECD Publishing.

OECD (2021) *Teachers' Professional Learning in Wales*. Paris: OECD Publishing.

OECD (2025). *Unlocking High-Quality Teaching.* OECD Publishing, Paris.

PAEF (2025) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2023–2024*. Caerdydd: Estyn.

Rosenshine (2012) *Principles of Instruction: Research-Based Strategies That all Teachers Should Know*. America Educator Spring 2012

Wiliam, D. (2011) *Embedded Formative Assessment*. Bloomington, IN: Solution Tree Press.

Wiliam, D. (2016) *Leadership (for) Teacher Learning*. West Palm Beach, FL: Learning Sciences International.